Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach

Mehefin 2017



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Pa mor dda y mae colegau AB yn mesur cynnydd dysgwyr?** | **8** |
| Asesiad cyn-dechrau a gwybodaeth gan ddarparwyr dysgu blaenorol | 8 |
| Ystod, ansawdd a defnyddio data i fesur cynnydd | 10 |
| **Pa mor dda y mae colegau AB yn paratoi dysgwyr ar gyfer y cyfnod pontio?** | **15** |
| Cyfnod pontio i'r coleg | 15 |
| Cynllunio rhaglenni | 17 |
| Cymwysterau a thystysgrifau dysgu | 19 |
| Medrau llythrennedd a rhifedd | 21 |
| Medrau bywyd ac annibyniaeth | 22 |
| Profiad gwaith | 23 |
| Cyfnod pontio allan o'r coleg | 26 |
| Cyrchfannau | 27 |
| **Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth** | **31** |
| **Atodiad 2:  Darpariaeth medrau byw yn annibynnol yng Nghymru** | **32** |
| **Geirfa** | **37** |
| **Cyfeiriadau** | **38** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet at Estyn, 2016-2017. Mae'r adroddiad yn archwilio'r trefniadau ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu ar raglenni dysgu arbenigol mewn colegau addysg bellach (AB). Mae'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae colegau'n nodi anghenion dysgwyr a pha mor dda y mae'r rhaglenni y maent yn eu cyflwyno yn bodloni galluoedd dysgwyr ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer y cyfnod pontio o'r coleg.

Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu'n bennaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, colegau AB ac awdurdodau lleol. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i golegau annibynnol arbenigol ac i asiantaethau, dysgwyr, rhieni a gofalwyr, staff a rheolwyr mewn sectorau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer dda ac yn defnyddio'r dystiolaeth a nodir yn Atodiad 1. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r adroddiad a gyhoeddwyd ym Mai 2016 ar gynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol (Estyn, 2016). Mae astudiaethau achos o'r ddau adroddiad wedi eu bwriadu i hyrwyddo arfer orau o ran datblygu darpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu ledled Cymru.

## Cefndir

Mae deuddeg coleg AB yng Nghymru yn darparu rhaglenni dysgu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu ar hyn o bryd. Addysg Oedolion Cymru (sef Coleg Cymunedol Cymru YMCA Cymdeithas Addysg y Gweithwyr gynt) a Choleg Dewi Sant yng Nghaerdydd yw'r unig golegau ar gyfer addysg ôl-orfodol nad ydynt yn darparu rhaglenni o'r fath. Yn 2015-2016, cwblhaodd tua 1,400 o ddysgwyr y rhaglenni hyn mewn colegau AB yng Nghymru.

Mae un coleg AB yn cynnig gofal preswyl ochr yn ochr â'i ddarpariaeth addysg. Cartref gofal cofrestredig yw Tŷ Weston ar gyfer oedolion ifanc ag anableddau, anawsterau dysgu ac anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac mae'r preswylwyr yn mynychu cyrsiau yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff cost y ddarpariaeth addysgol yn Nhŷ Weston ei hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar yr un sail â honno ar gyfer colegau arbenigol annibynnol.

Mae'r rhaglenni a gynigir yn cynnwys ystod o gyrsiau a chymwysterau ar lefel cyn-mynediad, lefel mynediad, ac mewn rhai achosion, lefel 1. Maent yn cyflawni gofynion y rhaglenni dysgu a nodir yng nghanllawiau meysydd dysgu pynciau perthnasol Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 Llywodraeth Cymru. Mewn tua hanner y colegau AB, cyfeirir at y cyrsiau hyn gyda'i gilydd fel rhaglenni medrau byw yn annibynnol (MBA). Fodd bynnag, yn y colegau AB eraill, mae'r cyrsiau hyn wedi eu grwpio o dan raglenni fel medrau am oes, paratoi ar gyfer gwaith neu fywyd, neu astudiaethau sylfaen.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae’r term rhaglenni medrau byw yn annibynnol yn cyfeirio at yr holl raglenni dysgu ar wahân mewn colegau AB ar gyfer dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu. Mae gan y dysgwyr hyn ystod eang o anawsterau, gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol, anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac, mewn rhai achosion, anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mewn llawer o golegau, mae’r ddarpariaeth hon hefyd yn cynnwys cyrsiau ar gyfer dysgwyr sy’n ymuno â’r coleg â medrau islaw’r rheiny sy’n ofynnol ar gyfer cael mynediad at gyrsiau prif ffrwd ond nad oes ganddynt anawsterau neu anableddau dysgu o bosibl. Gallai llawer o’r grŵp hwn o ddysgwyr fod wedi profi heriau difrifol â phresenoldeb ac ymgysylltu hefyd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol am amrywiaeth o resymau cymdeithasol a phersonol. O ganlyniad, mae’r ddarpariaeth medrau byw yn annibynnol bron ym mhob coleg AB yn cynnwys dysgwyr sydd ag ystod eang iawn o anghenion a galluoedd.

Mae bron pob coleg AB yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr o 16 mlwydd oed. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr yn ymuno â’r coleg nes eu bod yn 19 oed, yn enwedig os ydynt yn mynychu ysgol arbennig a gynhelir sydd â’i darpariaeth ôl-16 ei hun. Mewn ychydig iawn o achosion, bydd dysgwyr yn ymuno â’r coleg AB ar ôl cwblhau lleoliad mewn coleg annibynnol arbenigol.

Mae deddfwriaeth bresennol yn gofyn i ddysgwyr sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn eu blwyddyn olaf o’r ysgol sy’n dymuno mynd i goleg AB gael asesiad o’u hanghenion addysg a hyfforddiant (Deddf Dysgu a Sgiliau: Prydain Fawr, 2000). Gallai dysgwyr eraill, fel y rheiny sy’n cael eu cefnogi gan Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac sydd wedi bod yn destun proses adolygu blynyddol neu bontio sy’n gyson â’r broses a gynhelir ar gyfer y rheiny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, fod yn gymwys i gael asesiad o’r fath hefyd. Caiff yr asesiadau hyn (sy’n cael eu hadnabod fel cynlluniau dysgu a sgiliau (CDSau) eu cynnal gan Gyrfa Cymru ar ran Gweinidogion Cymru, a’u bwriad yw sicrhau bod dysgwyr ag anghenion cymhleth yn cael darpariaeth addas a’r cymorth sydd ei angen arnynt i fodloni eu hanghenion dysgu asesedig. Yn 2015-2016, yn ôl data a ddarparwyd gan y colegau AB ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd gan ryw hanner y dysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol CDS ar waith. Fodd bynnag, roedd cyfran y dysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol â CDSau yn amrywio’n sylweddol rhwng colegau. Mewn un coleg, ychydig iawn o ddysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol yn unig oedd â CDSau, tra oedd gan bron i dri chwarter y dysgwyr CDSau mewn lleiafrif o golegau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod costau ychwanegol ynghlwm wrth sicrhau darpariaeth sydd wedi’i chynllunio’n unig ar gyfer dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu. O fewn y Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16, mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol neu ddwys a lluosog yn derbyn cyllid ychwanegol i dalu cost uwch rhaglenni dysgu ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Yn ychwanegol, mae cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru trwy’r mecanwaith cymorth dysgu ychwanegol ar gyfer rhai dysgwyr unigol ar raglenni medrau byw yn annibynnol na fyddent yn gallu ymdopi heb lefelau uwch o gymorth.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ystod eang o wybodaeth am ddeilliannau dysgwyr sydd wedi’u cofrestru mewn colegau AB, gan gynnwys dysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol, trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC). Mae CDGOC

yn casglu gwybodaeth am gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant ar gyfer gweithgareddau dysgu, yn ogystal â gwybodaeth am gyrchfannau dysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg. Caiff cyrchfannau dysgwyr eu paru â 12 cod wedi'u gosod ymlaen llaw, sy'n mynd i'r afael â chategorïau bras ar gyfer addysg barhaus, cyflogaeth neu gyrchfannau eraill.

Mae Estyn wedi cynnal pedwar arolygiad o feysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau AB er Chwefror 2015. Nodwyd nifer o ddiffygion cyffredin yn yr adroddiadau arolygu hyn, gan gynnwys:

- Nid yw colegau'n cofnodi ac yn olrhain cynnydd dysgwyr o fannau cychwyn dysgwyr yn ddigon da
- Nid yw targedau ar gynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion a galluoedd y dysgwr
- Nid yw cynnwys rhaglenni yn canolbwyntio'n ddigonol ar y medrau a'r wybodaeth fydd eu hangen ar ddysgwyr i'w gwneud yn fwy annibynnol yn eu bywydau yn y dyfodol
- Ni all colegau arfarnu'r cynnydd a wna dysgwyr o ran datblygu eu medrau mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol
- Ni all rheolwyr ac athrawon ddangos sut mae rhaglenni dysgu yn cyfrannu at anghenion a chyrchfannau tymor hir dysgwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio disodli deddfwriaeth bresennol yn y maes hwn ar hyn o bryd. Nod y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017) yw darparu parhad gwell mewn cynllunio pontio rhwng addysg a hyfforddiant cyn-16 ac ôl-16 ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i golegau AB, yn enwedig yn y modd y maent yn gweithio'n agosach gyda theuluoedd ac awdurdodau lleol, gynyddu mynediad at addysg bellach ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth. Fodd bynnag, bydd hefyd yn cynyddu rhagor o heriau os ydynt am sicrhau bod ystod ac ansawdd eu darpariaeth yn cefnogi cyfnod pontio llwyddiannus i gyrchfannau pwrpasol ar gyfer yr holl ddysgwyr medrau byw yn annibynnol, gan gynnwys y rheiny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r rhan fwyaf o golegau AB yn casglu ystod eang o wybodaeth berthnasol am alluoedd, anghenion a chyflawniad blaenorol dysgwyr cyn iddynt ymuno â'r coleg. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn trosglwyddo'n llwyddiannus o ysgol neu ddarparwyr eraill i faes dysgu medrau byw yn annibynnol y coleg. Mewn rhai achosion, mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr blaenorol yn amrywio'n eang. Yn ychwanegol, mae rhai colegau'n adrodd am anawsterau wrth gofnodi ystod lawn yr anghenion pan fydd dysgwyr yn symud o wasanaethau cymdeithasol plant i wasanaethau cymdeithasol oedolion oherwydd ansawdd y wybodaeth a ddarperir.

2 Nid yw'r rhan fwyaf o golegau yn defnyddio ystod ddigon eang o ddata i fesur cynnydd dysgwyr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth. Mae hyn oherwydd nad oes ganddynt drefniadau ar waith i asesu neu olrhain medrau dysgwyr mewn meysydd pwysig fel annibyniaeth, lles, cyflogadwyedd neu gyfathrebu. Yn ychwanegol, ychydig iawn o golegau sydd â digon o arbenigwyr mewnol i asesu ystod lawn anghenion mwy cymhleth dysgwyr ac maent yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr addysg blaenorol, awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru. O ganlyniad, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a gaiff staff addysgu a staff cymorth mewn colegau i ddatblygu eu harbenigedd a'u dealltwriaeth yn y meysydd pwysig hyn.

3 Mae gan bob coleg gynlluniau dysgu unigol (CDUau) ar waith ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, mae CDUau yn amrywio'n sylweddol o ran pa mor dda y maent yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer dysgwyr sy'n ymestyn y tu hwnt i gwblhau'r cwrs neu'r rhaglen ddysgu. Ychydig iawn o CDUau sy'n gosod targedau tymor byr, tymor canolig neu dymor hir cydlynus sy'n ystyried cyrchfannau tebygol yr holl ddysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg.

4 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n adolygu cynnydd yn erbyn eu targedau ar eu CDUau yn rheolaidd, ond prin yw'r colegau sy'n olrhain cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau dros gyfnod. Yn ychwanegol, mewn llawer o golegau, mae ansawdd y broses o osod targedau yn rhy amrywiol i CDUau fod yn gofnod cywir o gynnydd dysgwyr. Nid yw llawer o dargedau'n cysylltu'n ddigonol â deilliannau asesiadau cychwynnol ac nid ydynt yn ddigon penodol i gofnodi camau dysgu bach.

5 Mewn llawer o golegau, mae systemau olrhain a monitro cynnydd dysgwyr ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol yn rhy ddibynnol ar ennill cymwysterau. I lawer o ddysgwyr ag anghenion cymhleth, nid yw'r dull hwn yn cynnig mesuriad cywir na pherthnasol o gynnydd.

6 Yn y rhan fwyaf o golegau, mae staff yn cynllunio'r cwricwlwm medrau byw yn annibynnol yn ofalus i gefnogi dilyniant dysgwyr yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ac mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i ddilyn cyrsiau pellach naill ai ar yr un lefel neu ar lefel uwch. Mewn llawer o golegau, nid yw rhaglenni dysgu yn rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau dysgwyr

nac yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer datblygu annibyniaeth, cyflogadwyedd a medrau bywyd dysgwyr. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, nid yw rhaglenni dysgu yn paratoi dysgwyr yn effeithiol ar gyfer yr heriau y byddant yn eu hwynebu yn eu bywydau yn y dyfodol.

7 Yn y rhan fwyaf o golegau, caiff dysgwyr gyfleoedd i ddilyn cymwysterau ar lefel sy'n gweddu'n dda i'w galluoedd ar y cyfan. Mewn llawer o achosion, nid yw cymwysterau'n mynd i'r afael ag ystod eang anghenion dysgwyr nac yn adlewyrchu eu cyrchfannau'n ddigon da. At ei gilydd, rhoddir gormod o bwyslais ar gymwysterau i fesur cyflawniad neu gynnydd pan nad yw hyn yn berthnasol i anghenion a galluoedd dysgwyr, na'u cyrchfannau yn y dyfodol.

8 Mae gan bron bob coleg ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Defnyddiant ganlyniadau asesiadau cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar gyrsiau ar y lefel briodol. Fodd bynnag, nid yw asesiadau gwaelodlin yn cofnodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer llawer o ddysgwyr llai abl yn ddigon da, ac ychydig iawn o golegau yn unig sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau cyfathrebu dysgwyr.

9 Nid yw llawer o golegau yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau bywyd ac annibyniaeth dysgwyr. Er bod y rhan fwyaf o raglenni'n cynnwys unedau sy'n datblygu medrau mewn meysydd perthnasol, fel coginio neu deithio'n annibynnol, nid yw gweithgareddau dysgu yn gyffredinol yn rhoi cyfleoedd addas i ddysgwyr gaffael medrau ymarferol neu gymhwyso'r rhain mewn cyd-destunau realistig. Nid yw'r rhan fwyaf o golegau yn arfarnu'r cynnydd a wna dysgwyr o ran datblygu'r medrau hyn dros gyfnod.

10 Mae gan y rhan fwyaf o golegau drefniadau i sicrhau bod dysgwyr ar raglenni galwedigaethol yn elwa ar brofiad gwaith perthnasol. Mae darpariaeth ar gyfer addysg sy'n gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr nad ydynt ar gyrsiau galwedigaethol yn fwy cyfyngedig, yn enwedig ar gyfer dysgwyr is eu gallu. Nid oes gan ryw hanner y colegau resymwaith clir ar gyfer datblygu medrau sy'n gysylltiedig â gwaith dysgwyr pan nad yw hyn yn ofyniad yn y cymhwyster.

11 Aeth llawer o ddysgwyr a gwblhaodd eu rhaglenni dysgu medrau byw yn annibynnol yn 2015-2016 ymlaen i ddilyn cyrsiau priodol o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol ar yr un lefel neu ar lefel uwch. Aeth rhai dysgwyr ymlaen i ddilyn cyrsiau lefel uwch yn narpariaeth prif ffrwd y coleg AB. Dechreuodd ychydig iawn o ddysgwyr ar gyflogaeth wedi iddynt gwblhau eu cwrs, tua'r un gyfran o ddysgwyr nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant pan adawsant y coleg.

12 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n rhoi cyngor ac arweiniad rheolaidd i ddysgwyr am eu dyfodol, ond mae'r data a gasglant ar gyrchfannau dysgwyr wedi iddynt gwblhau eu rhaglenni dysgu, a pha mor dda y maent yn arfarnu'r data hwn, yn rhy anghyson.

13 Nid yw llawer o golegau'n rhoi digon o bwyslais ar gyrchfannau tebygol dysgwyr trwy gydol eu cyfnod yn y coleg. O ganlyniad, caiff cyrchfannau llawer o ddysgwyr eu pennu'n bennaf gan yr hyn sydd ar gael yn lleol, yn hytrach nag o ganlyniad i gynllunio cydlynus.

14 At ei gilydd, mae cyrchfannau dysgwyr sy’n cwblhau cyrsiau medrau dysgu’n annibynnol yn amrywio gormod ar draws awdurdodau lleol. Mae’r amrywiad hwn yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn darpariaeth leol ar gyfer oedolion ag anawsterau ac anableddau dysgu, yn ogystal â gwahaniaethau yn y ffordd y mae colegau wedi ffurfweddu partneriaethau yn lleol i sicrhau llwybrau dilyniant dibynadwy ar gyfer eu dysgwyr. Yn benodol, mae diffyg cyfleoedd cyflogaeth addas mewn llawer o awdurdodau lleol, gan gynnwys cyflogaeth a gefnogir, i alluogi dysgwyr i barhau i ddatblygu a chymhwyso’r medrau y maent wedi’u dysgu yn y coleg.

# Argymhellion

**Dylai colegau AB:**

A1 Nodi medrau a galluoedd ehangach dysgwyr yn ystod asesiadau cychwynnol a chynnwys ffocws addas ar gyfathrebu, annibyniaeth, cyflogadwyedd a lles o fewn y rhain

A2 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau dysgu unigol yn adlewyrchu deilliannau asesiadau cychwynnol a'u bod yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy sy'n cysylltu'n glir â nodau tymor hir a chyrchfannau tebygol dysgwyr

A3 Cynllunio rhaglenni dysgu medrau byw yn annibynnol sydd:

- yn ddigon heriol
- yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu medrau sy'n berthnasol i anghenion a chyrchfannau tebygol dysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg
- yn cynnwys cydbwysedd priodol rhwng cwblhau cymwysterau a gweithgareddau dysgu

A4 Rhoi systemau dibynadwy ar waith i olrhain cynnydd yr holl ddysgwyr mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol

A5 Olrhain cyrchfannau dysgwyr pan fyddant yn gadael y maes dysgu neu'r coleg yn gywir

**Dylai awdurdodau lleol:**

A6 Rhoi gwybodaeth berthnasol i golegau am anghenion dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn y coleg

A7 Datblygu ystod ehangach o bartneriaethau gyda'r sector ôl-16 a'r sector gwirfoddol i ddatblygu a gwella llwybrau dilyniant yn yr ardal leol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Adolygu'r broses o gasglu gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol i sicrhau bod hyn yn rhoi darlun cywir o gyrchfannau dysgwyr ledled Cymru

## Pa mor dda y mae colegau AB yn mesur cynnydd dysgwyr?

### Asesiad cyn-dechrau a gwybodaeth gan ddarparwyr dysgu blaenorol

15 Mae gan y rhan fwyaf o golegau AB drefniadau addas ar waith i gasglu gwybodaeth berthnasol am ddysgu a chyflawniad blaenorol dysgwyr cyn iddynt ddechrau yn y coleg. Maent yn casglu ystod o wybodaeth am ddarpar ddysgwyr o amrywiaeth eang o ffynonellau. Er enghraifft, maent yn cyfweld â darpar ddysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr pan fyddant yn gwneud cais i'r coleg ac yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr addysg presennol dysgwyr, gwasanaethau cymdeithasol a Gyrfa Cymru.

16 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn defnyddio ystod briodol o ddogfennau i lywio eu dealltwriaeth o alluoedd ac anghenion dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ymddygiad, cynlluniau gofal, asesiadau risg, data cymwysterau, tystysgrifau cyrhaeddiad a chofnodion cyflawniad blaenorol, canlyniadau asesiadau meddygol neu therapiwtig arbenigol, a chofnodion cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol ac adolygiadau blynyddol statudol.

17 Yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr, mae dysgwyr sy'n gwneud cais am leoliadau yn Nhŷ Weston yn cael asesiad cyn-mynediad preswyl dros gyfnod o 36 awr yn erbyn meini prawf sy'n cynnwys medrau cymdeithasol, medrau bywyd ac ymddygiad. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y staff yn Nhŷ Weston yn meddu ar wybodaeth fanwl am fedrau a galluoedd dysgwyr cyn iddynt ymuno â'r coleg. Fodd bynnag, ychydig iawn o golegau sydd â threfniadau cadarn ar waith i gynnal asesiadau o fedrau a galluoedd dysgwyr cyn iddynt ymuno â'r coleg, heblaw trwy arsylwadau anffurfiol o ddysgwyr yn ystod ymweliadau â'r coleg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o golegau'n dibynnu ar y wybodaeth y maent yn ei chasglu gan ddarparwyr addysg blaenorol, cynghorwyr Gyrfa Cymru, gwasanaethau cymdeithasol a rhieni a gofalwyr i asesu ystod lawn anghenion dysgwyr.

18 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n cydweithio'n dda â darparwyr addysg blaenorol dysgwyr i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gywir am alluoedd ac anghenion y dysgwyr cyn iddynt ymuno â'r coleg. Maent yn meithrin perthnasoedd gwerthfawr â staff ysgolion trwy fynychu adolygiadau blynyddol a thrwy raglenni cyswllt ysgolion. I rai colegau, mae hyn yn achosi her logistaidd sylweddol. Er enghraifft, mae un maes dysgu medrau byw yn annibynnol yn denu dysgwyr o ryw 40 o ysgolion a darparwyr. Mae colegau eraill yn denu eu dysgwyr o nifer lai o lawer o ysgolion, sy'n helpu cyfathrebu a chynllunio pontio rhwng y coleg a'r ysgolion.

19 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n casglu gwybodaeth werthfawr am ddarpar ddysgwyr gan ysgolion trwy fynychu adolygiadau blynyddol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Er enghraifft, yng Ngholeg Sir Gâr, mae mentor myfyrwyr yn mynychu'r holl adolygiadau ysgol yn ystod blwyddyn olaf ond un y dysgwyr yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae nifer yr adolygiadau a fynychir yn amrywio rhwng colegau. Mae un coleg yn mynychu tua 95% o adolygiadau, tra bod y gyfran ar gyfer colegau eraill tua 70%.

20 Mae gan y rhan fwyaf o golegau raglenni cyswllt ysgolion sefydledig ar waith. Mae’r rhaglenni hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ymweld â cholegau tra byddant yn parhau i fod yn yr ysgol. Maent yn galluogi staff y coleg i arsylwi dysgwyr yn y coleg dros gyfnod ac yn darparu gwybodaeth werthfawr am ddysgwyr cyn iddynt ymuno â’r coleg. Fodd bynnag, ni chaiff llawer o ddysgwyr gyfle i gymryd rhan mewn rhaglenni cyswllt ysgolion. O ganlyniad, mae ansawdd y wybodaeth a gesglir am ddysgwyr cyn iddynt ymuno â’r coleg trwy’r dull hwn yn amrywio’n eang o fewn colegau, a rhyngddynt.

21 Mae’n ofynnol i Gyrfa Cymru gwblhau Cynllun Dysgu a Sgiliau (CDS) ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi cael datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol er mwyn cynorthwyo’r cyfnod pontio i’r coleg. Gallai dysgwyr eraill, fel y rheiny sy’n cael eu cefnogi gan Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac sydd wedi bod yn destun proses adolygu blynyddol neu bontio sy’n gyson â’r hyn a gynhelir ar gyfer y rheiny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, fod yn gymwys i gael asesiad o’r fath hefyd. Mewn llawer o achosion, mae CDSau yn fanwl a chynhwysfawr ac fe gânt eu gwerthfawrogi’n fawr gan y coleg. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw’r wybodaeth a ddarperir am gyflawniadau addysgol y dysgwyr yn ddigon cywir neu ni chaiff ei derbyn mewn modd amserol.

22 Mae’r rhan fwyaf o golegau yn casglu gwybodaeth ddibynadwy ynglŷn ag anghenion gofal, meddygol a chymorth personol dysgwyr cyn iddynt ymuno â’r coleg. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae ansawdd y wybodaeth hon yn amrywio’n fawr rhwng darparwyr. Yn ychwanegol, caiff rhai colegau anawsterau yn cofnodi ystod lawn yr anghenion pan fydd dysgwyr yn symud o wasanaethau cymdeithasol plant i wasanaethau cymdeithasol oedolion oherwydd ansawdd y wybodaeth a ddarperir.

23 Mae llawer o golegau’n ceisio casglu gwybodaeth yn ymwneud â phriodoleddau emosiynol, cymdeithasol a phersonol dysgwyr trwy amrywiaeth o ddulliau. Yng Ngholeg Penfro, mae staff yn arsylwi disgyblion yn eu lleoliad presennol cyn iddynt drosglwyddo i’r coleg. Mae llawer o golegau’n casglu’r math hwn o wybodaeth trwy arsylwadau anffurfiol o ddysgwyr yn ystod rhaglenni cyswllt ysgolion. Fodd bynnag, mewn llawer o golegau, nid oes dull cyson ar gyfer cofnodi neu arfarnu’r wybodaeth hon.

24 Mewn rhai achosion, mae colegau’n gweld nad yw’r wybodaeth sy’n ymwneud â chyflawniad addysgol blaenorol dysgwyr yn gywir ac nad yw’n adlewyrchu asesiadau’r coleg ei hun o fedrau dysgwyr ar ôl i’r dysgwr ymuno â’r coleg. Mae hyn yn golygu bod y gwaith y bydd dysgwyr yn ei gwblhau pan fyddant yn dechrau eu cwrs ar lefel is na’r gwaith a gwblhawyd yn eu hysgol flaenorol. At ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o golegau’n ei chael yn anodd casglu gwybodaeth ddibynadwy am ddysgwyr nad ydynt o’r dalgylch mewn digon o amser cyn dechrau’r cwrs coleg.

25 Mae llawer o golegau’n cofnodi’r wybodaeth y byddant yn ei chasglu am ddysgwyr ar eu systemau gwybodaeth reoli. O ganlyniad, gall staff yn yr adran medrau byw yn annibynnol gael ystod berthnasol o wybodaeth er mwyn iddynt allu cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol. Bron ym mhob achos, caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio’n dda i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar gyrsiau priodol yn y coleg.

## Ystod, ansawdd a defnyddio data i fesur cynnydd

26 Nid yw’r rhan fwyaf o golegau AB yn defnyddio ystod ddigon eang o ddata i fesur cynnydd pob dysgwr yn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol. Mae gan bron bob un ohonynt drefniadau effeithiol ar waith i gasglu data ar gyfraddau presenoldeb, cadw a chwblhau cymwysterau. I lawer o ddysgwyr ar raglenni lefel uwch sy’n dymuno symud ymlaen i ddilyn cyrsiau prif ffrwd, gallai’r rhain fod yn fesurau priodol o gynnydd. Fodd bynnag, i ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth, nid yw’r mesurau hyn yn mynd i’r afael â natur eu hanghenion dysgu’n ddigon da. Ychydig iawn o golegau sy’n casglu data ar ddatblygiad medrau ehangach dysgwyr, neu’n arfarnu’r cynnydd a wna dysgwyr yn gywir wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ystod eu rhaglenni dysgu.

27 Mae rhai colegau’n datblygu eu dulliau asesu cychwynnol er mwyn sefydlu mesurau gwaelodlin mwy cywir y gallant bennu cynnydd oddi wrthynt. Fodd bynnag, mae’n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu’r rhain. Nid yw’r rhan fwyaf o golegau yn nodi’n ddigon da y medrau y mae angen i ddysgwyr eu datblygu mewn meysydd pwysig fel annibyniaeth, lles, cyflogadwyedd, neu gyfathrebu ar ddechrau’r cwrs. Yn ychwanegol, ychydig iawn o golegau sydd â digon o arbenigwyr mewnol i asesu anghenion mwy cymhleth dysgwyr, gan gynnwys eu hanghenion cyfathrebu, ac maent yn ddibynnol ar wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru. O ganlyniad, cyfyngedig yw’r cyfleoedd a gaiff staff mewn colegau i ddatblygu eu harbenigedd a’u dealltwriaeth yn y meysydd pwysig hyn.

28 Mae gan bron bob coleg drefniadau ar waith i asesu mannau cychwyn dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd ar ôl iddynt ymuno â’r coleg. Mae’r rhan fwyaf o golegau’n defnyddio offeryn asesu cychwynnol ar-lein i wneud hyn. I lawer o ddysgwyr sy’n dilyn cymwysterau mynediad lefel 3, mae hyn yn darparu gwybodaeth gywir am fedrau dysgwyr. Fodd bynnag, mae mwyafrif y colegau’n cydnabod, hyd yn oed i ddysgwyr mwy abl o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol, nid yw’r wybodaeth a gesglir bob amser yn ddibynadwy. Mae tua hanner y colegau’n defnyddio arsylwadau ac arbenigedd athrawon i wirio cywirdeb canlyniadau asesu.

29 I ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth nad yw asesu ar-lein yn briodol iddynt, mae gan lawer o golegau drefniadau eraill ar waith, gan gynnwys defnyddio asesiadau ar bapur. Mae rhai colegau wedi datblygu eu hasesiadau eu hunain, gan gynnwys dulliau asesu arsylwadol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw’r trefniadau hyn yn arwain at dargedau sy’n ddigon penodol neu fesuradwy.

30 Mae gan bob coleg gynlluniau dysgu unigol (CDUau) ar waith ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol. Fodd bynnag, nid oes fformat cyson i’r rhain, ac mae’r cynnwys yn amrywio’n helaeth rhwng colegau. Yn y rhan fwyaf o golegau, mae CDUau ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol yn adlewyrchu’r model a ddefnyddir gan bob dysgwr yn y coleg. Mewn llawer o achosion, maent yn darparu cofnod o weithgarwch tiwtorial ac yn gwasanaethu fel llwyfan gwybodaeth reoli ar gyfer staff sy’n gweithio gyda’r dysgwyr. I ddysgwyr sy’n anelu at fynd yn eu blaenau i ddilyn cyrsiau prif ffrwd, mae’r dull cyson hwn ar draws y coleg yn eu cefnogi i drosglwyddo’n llwyddiannus i gyrsiau prif ffrwd wrth iddynt gwblhau eu cyrsiau medrau byw yn annibynnol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw’r model hwn o CDU yn darparu cofnod effeithiol o gynnydd ar gyfer llawer o ddysgwyr yn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol.

31 Yn y rhan fwyaf o golegau, mae CDUau yn cynnwys targedau ar gyfer llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â meysydd ffocws eraill a ddewiswyd gan y dysgwr ar y cyd â'i diwtor/thiwtor. Gan amlaf, mae'r targedau hyn yn mynd i'r afael â meysydd fel annibyniaeth, medrau cymdeithasol neu ddatblygiad personol. Fel arfer, caiff targedau ar CDUau eu gosod gan ddysgwyr ynghyd â staff. Mae'r broses hon yn addas ar gyfer dysgwyr mwy abl, gan eu galluogi i gymryd perchnogaeth o'u dysgu a'u cynnydd eu hunain. Fodd bynnag, mae angen cymorth sylweddol gan staff ar ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth i osod targedau sy'n benodol a phwrpasol yn ogystal. Pan na fydd dysgwyr yn cael yr arweiniad hwn, mae targedau'n aml yn rhy fras i fesur cynnydd yn effeithiol ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da â chanlyniadau asesiadau cychwynnol.

32 Mae CDUau ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol yn amrywio'n sylweddol o ran pa mor dda y maent yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer dysgwyr sy'n ymestyn y tu hwnt i gwblhau'r cwrs neu'r rhaglen ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o dargedau'n cefnogi cwblhau cwrs presennol y dysgwyr i alluogi dilyniant o fewn y coleg at y cam addysgol nesaf. Fodd bynnag, ychydig iawn o CDUau sy'n gosod targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir cydlynus sy'n ystyried cyrchfannau tebygol dysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg. Mae hyn yn golygu nad yw gormod o ddysgu yn y coleg yn arfogi dysgwyr llai abl yn benodol â'r medrau penodol y bydd eu hangen arnynt yn eu bywydau yn y dyfodol.

33 Yn y rhan fwyaf o golegau, caiff athrawon a staff cymorth dysgu sy'n gweithio gyda'r dysgwyr fynediad priodol a rhwydd at y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y CDU. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o golegau, ni chaiff y targedau sydd wedi'u cynnwys yn y CDUau eu hintegreiddio'n ddigon da yn yr holl weithgareddau dysgu. Y rheswm am hyn yw mai ennill y cymhwyster yw'r prif ganlyniad mewn llawer o wersi.

34 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n adolygu cynnydd dysgwyr yn erbyn y targedau yn eu CDUau yn rheolaidd, yn unol â'r trefniadau ar gyfer pob dysgwr yn y coleg. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn cynnal adolygiadau tymhorol. Mae rhai colegau'n adolygu cynnydd dysgwyr yn fwy rheolaidd. Ymgymerir â'r broses hon yn unigol yn ystod cyfnod tiwtorial gyda thiwtor personol y dysgwr gan amlaf. Fodd bynnag, ambell goleg yn unig sy'n coladu'r wybodaeth hon neu'n ei harfarnu'n systematig i olrhain cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau dros gyfnod neu gynnydd grwpiau o ddysgwyr yn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol.

35 Nid oes gan lawer o golegau drefniadau priodol ar waith i fonitro ac olrhain pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn erbyn eu hasesiadau gwaelodlin. Mae'r colegau hyn yn dibynnu ar ddysgwyr yn ennill cymwysterau i ddangos y cynnydd y maent wedi'i wneud yn y medrau hyn. Pan fydd dysgwyr yn dilyn cymwysterau ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd fel rhan o'u rhaglen ddysgu, gall hyn fod yn gam priodol. Fodd bynnag, ar gyfer dysgwyr llai abl, caiff y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd ei chynnwys yn y prif gymhwyster fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn ddull perthnasol ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd ac yn golygu y gellir cymhwyso'r medrau hyn yn eu cyd-destun. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r cymwysterau hyn yn darparu mesur digon penodol o'r cynnydd a wna dysgwyr o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

36 Mewn llawer o golegau, mae ansawdd cyffredinol gosod targedau yn rhy amrywiol i fod yn gofnod cywir o gynnydd dysgwyr. Nid yw llawer o dargedau'n cysylltu'n ddigonol â chanlyniadau asesiadau cychwynnol ac nid ydynt yn ddigon penodol i alluogi camau dysgu bach. Maent yn canolbwyntio'n ormodol ar gwblhau nodau cymhwyster ac nid ydynt yn mynd i'r afael â'r medrau ehangach y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol.

37 Prin yw'r colegau sydd â systemau cadarn ar waith i asesu medrau cyfathrebu, annibyniaeth, cyflogadwyedd a chymdeithasol dysgwyr. O ganlyniad, ni all llawer o golegau osod targedau ar gyfer dysgwyr sy'n ddatblygiadol ac yn berthnasol i'w hanghenion a'u galluoedd. Mae systemau ar gyfer olrhain a monitro cynnydd dysgwyr yn y meysydd allweddol hyn yn rhy ddibynnol ar unedau credyd a gyflawnir ac nid ydynt yn adeiladu'n gynyddol o fannau cychwyn unigol dysgwyr tuag at nodau perthnasol sydd wedi'u diffinio'n glir.

38 Nid oes gan lawer o golegau drefniadau cadarn i sicrhau ansawdd targedau yn CDUau dysgwyr. Mae bron pob un o'r meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol yn adolygu'r cyrsiau a gynigir i asesu pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn gweddu i anghenion dysgwyr. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae colegau wedi gwneud newidiadau i'w darpariaeth i adlewyrchu anghenion newidiol dysgwyr sy'n dod i'r coleg. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon yn rhoi ystyriaeth ddigon da i effeithiolrwydd targedau neu p'un a yw strategaethau addysgu yn ddigonol i fodloni targedau dysgwyr unigol.

**Astudiaeth achos 1: Asesiad cychwynnol o ddysgwyr medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro**

Mae'r coleg wedi adolygu ei drefniadau ar gyfer yr asesiad cychwynnol o ddysgwyr sy'n ymuno â'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol yn dilyn ei arolygiad gan Estyn ym Mawrth 2015. O ganlyniad, mae deilliannau asesiadau cychwynnol yn fwy dibynadwy ac yn cyd-fynd yn agosach â gosod targedau a monitro cynnydd dysgwyr.

Roedd arweinwyr a rheolwyr yn y maes dysgu eisoes wedi nodi'r angen i wella trefniadau pontio gydag ysgolion blaenorol dysgwyr i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gadarn cyn-mynediad am ddysgwyr newydd cyn iddynt ymuno â'r coleg. Fe wnaethant gyflwyno protocol pontio newydd i'w ddilyn gan y coleg ac ysgolion darparu. O ganlyniad, mae'r coleg yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr cyn-mynediad am bron pob un o'r dysgwyr cyn iddynt ddechrau, ac yn ystod cyfnod asesu cychwynnol y coleg.

Caiff yr holl ddysgwyr eu hasesu pan fyddant yn dechrau yn y ddarpariaeth gan ddefnyddio offeryn asesu ar-lein sy'n asesu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth dysgwyr. Mae'r coleg yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda, ynghyd â deilliannau o asesiadau llythrennedd a rhifedd, i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar y cwrs a'r llwybr dilyniant cywir.

Mae deilliannau asesiadau cychwynnol yn cysylltu'n uniongyrchol â'r pedwar maes targed ar raglen dysgu unigol electronig (RhDUE) y coleg. Mae'r RhDUE yn amlygu pedwar maes asesu allweddol mewn medrau llythrennedd, rhifedd, annibyniaeth a chymdeithasol. Mae tiwtoriaid yn

defnyddio deilliannau'r asesiadau i osod targedau gyda dysgwyr ym mhob un o'r pedwar maes allweddol. Wedyn, eir i'r afael â'r targedau hyn yn y cwricwlwm ac mewn gwersi.

Mae'r asesiad yn rhoi sgorau data gwaelodlin, y gellir eu defnyddio wedyn fel man cychwyn i gofnodi cynnydd wrth i dargedau gael eu hadolygu gyda'r dysgwr deirgwaith yn ystod y flwyddyn. Mae pennaeth y maes dysgu'n olrhain cynnydd dysgwyr ac yn gwirio ansawdd gosod targedau trwy adroddiadau wythnosol.

O ganlyniad i'r camau gweithredu hyn, mae gan bron bob un o'r dysgwyr dargedau unigol penodol a mesuradwy erbyn hyn. Mae hyn yn galluogi athrawon a rheolwyr i fonitro cynnydd dysgwyr a chynhyrchu data i ddangos y pellter a deithiwyd ar gyfer yr holl ddysgwyr yn erbyn eu targedau. Amlygodd adolygiad mewnol diweddar hefyd fod cynnydd yng nghyflymdra a her dysgu mewn sesiynau penodol, gan fod dysgu'n cael ei bersonoli yn erbyn meysydd unigol i'w gwella.

**Astudiaeth achos 2: Sut mae gosod targedau yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr**

Ar ôl uno'r colegau sy'n ffurfio Grŵp Llandrillo Menai, cynhaliodd staff adolygiad o'u darpariaeth medrau byw yn annibynnol, gan ddefnyddio cwestiynau o adroddiadau blaenorol Estyn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

Amlygodd yr adolygiad agweddau ar arfer dda ar draws y ddarpariaeth. Fodd bynnag, daeth yn amlwg hefyd y byddai'r grŵp yn elwa ar ddull cyffredin i ddatblygu'r cwricwlwm a gynigir a gosod targedau mewn CDUau. Yn benodol, roedd angen i lawer o staff ar draws y grŵp wella eu technegau gosod targedau i sicrhau bod yr holl dargedau yn y CDUau yn benodol, yn berthnasol i anghenion dysgwyr ac yn fesuradwy.

Nododd y grŵp y camau gweithredu allweddol canlynol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella:

- Cyflwyno cyfnod chwe wythnos o asesu cychwynnol ar ddechrau cyrsiau dysgwyr i gynnwys asesiadau diagnostig a sesiynau tiwtorial unigol i sicrhau bod targedau'n seiliedig ar wybodaeth gywir a pherthnasol
- Gosod targedau clir ar gyfer yr holl ddysgwyr ar ddechrau eu rhaglenni yn seiliedig ar wybodaeth a ddaeth i law yn ystod y broses bontio
- Sicrhau bod nodau cyrchfan tymor hir dysgwyr yn llywio'r holl dargedau tymor byr a thymor canolig
- Adolygu CDUau i gynnwys targedau ar gyfer lles, cyflogadwyedd, byw yn annibynnol ac ymglymiad cymunedol, yn ogystal â llythrennedd a rhifedd
- Sicrhau bod targedau dysgwyr yn adlewyrchu eu hanghenion a'u galluoedd unigol yn gywir, yn enwedig mewn llythrennedd, rhifedd ac annibyniaeth
- Adolygu targedau dysgwyr bob hanner tymor mewn sesiynau tiwtorial personol

Mae staff wedi cael cymorth helaeth i’w galluogi i wella’r ffordd y maent yn gosod targedau a sicrhau bod targedau tymor byr a thymor canolig yn rhoi ystyriaeth briodol i gyrchfannau cynlluniedig dysgwyr unigol. O ganlyniad, gall staff ddarparu cymorth cydlynus i ddysgwyr unigol wneud cynnydd y tu mewn a’r tu allan i’r coleg. Mae enghreifftiau o gyflawniadau dysgwyr ers adolygu’r drefn o osod targedau yn cynnwys:

- Gwnaeth dysgwr a oedd yn cael anhawster cymdeithasu â chyfoedion yn y gorffennol ei threfniadau ei hun i ymuno â chlwb ieuenctid lleol, ac mae’n mynychu’r clwb o hyd
- Mae dysgwr a oedd yn cael problemau’n archebu bwyd ac yn bwyta cinio yn y coleg yn gallu gwneud hyn yn annibynnol erbyn hyn
- Mae dysgwr na fyddai’n coginio gartref yn y gorffennol bellach yn paratoi a choginio pryd o fwyd iddi hi a’i mam

Mae dysgwr nad oedd yn hyderus i fynychu lleoliad gwaith heb gymorth bellach yn mynychu’n annibynnol

## Pa mor dda y mae colegau AB yn paratoi dysgwyr ar gyfer y cyfnod pontio?

### Cyfnod pontio i'r coleg AB

39 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cyfnod pontio llwyddiannus o'r ysgol i ddarparwyr eraill ym maes dysgu medrau byw yn annibynnol y coleg. Mae hyn yn bennaf oherwydd y wybodaeth a gesglir gan y coleg cyn ac yn ystod y broses ymgeisio. Mae hyn yn galluogi colegau i benderfynu mewn da bryd p'un a ydynt yn gallu bodloni anghenion darpar ddysgwyr neu p'un a fydd angen iddynt gyfeirio dysgwyr i rywle arall.

40 Mae gan y rhan fwyaf o golegau drefniadau priodol ac effeithiol ar waith i gydlynu cyfnod pontio dysgwyr medrau byw yn annibynnol i'r coleg. Yng Ngholeg Gŵyr, mae gan swyddog pontio dynodedig gyfrifoldeb am gydlynu cyfnod pontio'r holl ddysgwyr i'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol.

**Astudiaeth achos 3: Sut mae rôl y swyddog pontio yn hyrwyddo deilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Gŵyr**

O ganlyniad i ymglymiad y coleg ym mhrosiect Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig (UPOSS) yn 2013, cydnabu'r coleg yr angen i adolygu ei strategaeth bontio i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu rhoi ar gyrsiau ar lefel briodol ac yn cyrraedd eu llawn botensial.

Elfen allweddol o'r strategaeth hon oedd cyflogi swyddog pontio dynodedig sydd â chyfrifoldeb am gydlynu'r holl agweddau ar bontio dysgwyr medrau byw yn annibynnol, yn y coleg ac ar y camau dilyniant nesaf. Mae'r swyddog pontio yn darparu cyswllt â'r 25 o ysgolion darparu y coleg, gan sicrhau ymdriniaeth gyson â'r holl geisiadau i'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol. Mae'n cydlynu presenoldeb y coleg mewn adolygiadau blynyddol o ddatganiadau yn ysgolion darparu y coleg, yn trefnu sesiynau gwybodaeth ar gyfer darpar ddysgwyr a'u rhieni, ac yn cysylltu â sefydliadau allanol gan gynnwys cynghorwyr gyrfaoedd, gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau addysg awdurdodau lleol.

Yn ychwanegol, mae'r swyddog pontio yn cefnogi tiwtoriaid y coleg wrth ddelio â materion bugeiliol ac ymddygiadol, yn cysylltu â sefydliadau allanol ac yn goruchwylio dilyniant myfyrwyr medrau byw yn annibynnol o fewn y coleg.

Mae cyflwyno'r swyddog pontio wedi darparu cyfleoedd i ddatblygu partneriaethau ag ysgolion sy'n bwydo a sefydliadau allanol ac wedi sicrhau bod darpar ddysgwyr yn ymgyfarwyddo â phersonél allweddol yn y coleg yn gynnar. Yn ychwanegol, mae gan athrawon a staff cymorth yn y coleg syniad cliriach o anghenion gofal ac addysgol myfyrwyr unigol trwy gydol y broses dderbyn. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y trosglwyddiadau cwrs ar gyfer dysgwyr newydd.

41 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n cysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr dysgwyr a darparwyr addysg blaenorol i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfnod pontio didrafferth i'r coleg ar ddechrau eu cwrs. Mae llawer o golegau'n trefnu digwyddiadau buddiol i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr yn y coleg, fel:

- Rhaglenni cyswllt ysgol-coleg
- Nosweithiau agored a diwrnodau agored mewn cyfnodau allweddol trwy'r flwyddyn
- Cyfnod ymsefydlu a diwrnodau rhagflas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11

Mae rhai colegau'n cynnig cyrsiau rhagflas yn yr haf i ddysgwyr ymgyfarwyddo â'r coleg cyn dechrau yno.

42 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n gwirio'n ofalus eu bod yn gallu bodloni anghenion cymdeithasol a phersonol dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio i'r coleg cyn cynnig lle iddynt. Mae gan y rhan fwyaf o golegau gysylltiadau effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr addysg, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith, a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS). Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau bod gan golegau fel arfer y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i asesu p'un a ydynt yn gallu cynnig lleoliad i'r dysgwr i fodloni ei (h)anghenion. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r wybodaeth a gaiff y colegau gan yr asiantaethau hyn yn cyrraedd mewn modd amserol, yn enwedig pan fydd dysgwyr yn gwneud cais i ymuno â'r coleg o'r tu allan i ddalgylch y coleg.

43 Mae bron pob coleg yn darparu cyngor ac arweiniad am ystod y cyrsiau sydd ar gael yn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol. Yng Ngholeg Cambria, mae dysgwyr yn elwa ar ddewisiadau rhagflas mewn gwahanol feysydd galwedigaethol cyn iddynt ddechrau dilyn llwybr dysgu penodol. Mae'r dull hwn yn galluogi dysgwyr i brofi meysydd na fyddent efallai wedi eu hystyried wrth ddewis eu cwrs neu siarad am eu dyheadau. Pan fydd yn dod i'r amlwg fod dysgwyr wedi cael eu rhoi ar y cwrs anghywir yn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol, mae gan y rhan fwyaf o golegau drefniadau priodol ar waith i adleoli dysgwyr yn ystod wythnosau cyntaf astudio.

44 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae colegau AB yn dibynnu ar Gyrfa Cymru i ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd ynglŷn ag ystod lawn y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16, gan gynnwys colegau arbenigol annibynnol. Mae llawer o feysydd dysgu medrau byw yn annibynnol yn cyfeirio darpar ddysgwyr na ellir bodloni eu hanghenion naill ai'n fewnol i ddarpariaeth prif ffrwd yn y coleg neu i Gyrfa Cymru os yw hyn yn briodol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae colegau'n teimlo eu bod dan bwysau sylweddol gan rieni i gynnig lle i ddysgwyr er nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu bodloni eu hanghenion. Yn yr un modd, mewn ychydig iawn o achosion, mae colegau'n teimlo eu bod dan bwysau gan rieni i ddangos i Lywodraeth Cymru na allant fodloni anghenion dysgwr pan fo'r coleg yn hyderus y gall wneud hynny, gan y byddai hyn yn galluogi'r dysgwr i gael ei ystyried am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliad mewn coleg annibynnol arbenigol.

45 Mae llawer o golegau'n darparu hyfforddiant rheolaidd ar gyfer staff i gefnogi anghenion meddygol a gofal dysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn gallu

cynorthwyo dysgwyr sydd ag ystod eang o anghenion corfforol a meddygol i gael cyfnod pontio didrafferth i'r coleg.  Fodd bynnag, mewn llawer o golegau, nid yw hyfforddiant yn canolbwyntio'n ddigonol ar strategaethau addysgol i gefnogi dysgu, yn enwedig pan fydd gan ddysgwyr anghenion mwy cymhleth, neu pan fydd anawsterau cyfathrebu'n creu rhwystrau sylweddol rhag dysgu.

46 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n gweithio'n agos â chynghorwyr arbenigol o Gyrfa Cymru a thimau gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdodau lleol.  Mae'r partneriaethau hyn yn hynod effeithiol o ran cefnogi cyfnod pontio dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth i'r coleg, gan gynnwys y rheiny sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

## Cynllunio rhaglenni

47 Yn y rhan fwyaf o golegau AB, caiff y cwricwlwm o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol ei gynllunio'n ofalus i ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd ag ystod eang o alluoedd o lefel cyn-mynediad i lefel mynediad 3, ac mewn rhai achosion, lefel 1.  Mae'r cyrsiau a gynigir yn y rhan fwyaf o golegau yn darparu llwybrau priodol sy'n cefnogi dilyniant dysgwyr yn dda o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol ac ar gyrsiau prif ffrwd lefel 1.

48 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n defnyddio'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu am y dysgwr ar raglen ddysgu briodol yn dda.  Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus a bod llawer o ddysgwyr yn mynd yn eu blaenau i ddilyn cwrs pellach naill ai ar yr un lefel neu ar lefel uwch.

49 Mae mwyafrif y colegau'n cynllunio'n arbennig o dda i sicrhau dilyniant dysgwyr ar gyrsiau mynediad lefel 3 i gyrsiau galwedigaethol perthnasol o fewn darpariaeth prif ffrwd y coleg.  O ganlyniad, ledled Cymru, aeth ychydig dros 20% o ddysgwyr ymlaen yn llwyddiannus o feysydd dysgu medrau byw yn annibynnol i ddarpariaeth brif ffrwd lefel 1 yn 2015-2016.

50 Mae mwyafrif y colegau wedi gwneud newidiadau i'w darpariaeth yn ddiweddar i wella cyfraddau dilyniant a chadw dysgwyr ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol.  Bron ym mhob achos, mae'r newidiadau hyn wedi arwain at gynnwys cyrsiau ychwanegol i gefnogi dilyniant pellach o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol, neu i weithredu fel pont at gyrsiau prif ffrwd.  Mewn rhai achosion, mae hyn yn adlewyrchu anghenion newidiol carfan y dysgwyr ac mae'n digwydd o ganlyniad i gydweithio a chynllunio effeithiol gydag ysgolion lleol a chynghorwyr Gyrfa Cymru.

51 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n sicrhau bod rhaglenni dysgu'n cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o gymdeithas a'r gymuned y maent yn byw ynddi trwy gynnwys testunau fel sut i gadw'n ddiogel, cyngor ar yrfaoedd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.  Mewn llawer o golegau, mae rhaglenni dysgu'n rhoi llawer o gyfleoedd i ddysgwyr o bob gallu ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â dysgu am destunau sy'n berthnasol i'r prif nod cymhwyster.  Yn y mwyafrif o golegau, mae athrawon yn dewis unedau'n ofalus i gwmpasu ystod amrywiol o destunau ar gyfer dysgwyr.  Fodd bynnag, i lawer o ddysgwyr ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol, mae cynnwys y cymwysterau'n golygu nad yw profiadau dysgu'n ddigon heriol.  Mae

gweithgareddau'n rhy seiliedig ar yr ystafell ddosbarth ac mae'r cyfleoedd a gaiff dysgwyr i gymhwyso eu dealltwriaeth o'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn gwahanol gyd-destunau yn gyfyngedig.

**Astudiaeth achos 4: Sut mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad medrau dysgwyr yng Ngholeg Cambria**

Yng Ngholeg Cambria, cynhaliodd yr adran medrau byw yn annibynnol adolygiad trylwyr o'i ddarpariaeth yn Rhagfyr 2015. O ganlyniad i hyn, mae'r coleg wedi datblygu rhaglenni dysgu personoledig sy'n cysylltu'n agosach â phrosesau asesu cychwynnol ac yn cefnogi anghenion a dyheadau unigol dysgwyr yn fwy effeithiol.

Mae datblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau bywyd, medrau gwaith, medrau personol, medrau dysgu ac iechyd a lles dysgwyr, wedi bod yn ganolog i hyn. Mae pob rhaglen ddysgu yn sicrhau bod gweithgareddau'n mynd i'r afael ag anghenion a galluoedd unigol dysgwyr fel y cânt eu nodi yn ystod cyfnod asesu cychwynnol estynedig y coleg. O ran medrau bywyd, er enghraifft, gall y ffocws fod ar ddatblygu medrau coginio sylfaenol neu gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio sugnydd llwch i lanhau eu hystafell wely. Caiff gweithgareddau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r tiwtor i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ac yn parhau i ymgymryd â medrau a thasgau sy'n gynyddol heriol.

Mae'r coleg wedi rhoi ystod ehangach o gyfleoedd ar waith hefyd i ddatblygu medrau gwaith dysgwyr. Gall dysgwyr gymryd rhan yn awr mewn cyrsiau rhagflas galwedigaethol ac amgylcheddau gweithio realistig yn y coleg, yn ogystal â gwneud gwaith gwirfoddol a mynd ar leoliadau cyflogaeth y tu allan i'r coleg.

Er mai dim ond yn ystod y flwyddyn academaidd hon y mae'r coleg wedi rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn llawn, mae eisoes wedi dechrau gweld gwelliannau mewn darpariaeth ac o ran ymgysylltiad dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn dangos dealltwriaeth well o anghenion medrau personol a chymdeithasol dysgwyr, ac mae cynlluniau dysgu unigol yn dangos bod dysgu'n cael ei bersonoli ac y gellir olrhain cynnydd mewn dysgu yn agos.

Mae'r coleg wedi nodi gwelliannau yng nghyfranogiad ac ymgysylltiad dysgwyr wrth iddynt ymateb i heriau sy'n cael eu gwahaniaethu'n benodol ar gyfer eu hanghenion a'u diddordebau unigol. Mae cymhelliant dysgwyr wedi gwella gan fod y system olrhain fanwl yn y cynllun dysgu unigol yn cydnabod eu cynnydd a'r ffaith eu bod wedi ennill medrau newydd.

52 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n cynnig cyfleoedd priodol i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi fel rhan o'u rhaglen ddysgu. Mae'r mwyafrif ohonynt yn darparu ar gyfer hyn yn dda o fewn yr amserlen. Mae gan rai colegau ddull cydlynus sy'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer codi arian ac ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, nid yw llawer o golegau'n arfarnu effaith y gweithgareddau hyn yn ddigonol nac yn eu hystyried yn elfen gwbl integredig o'r rhaglen ddysgu.

53 Mae rhai colegau wedi adolygu eu cwricwlwm i gynnig dulliau mwy ymarferol i ddysgwyr o ddysgu a datblygu medrau. Fodd bynnag, mewn gormod o feysydd dysgu medrau byw yn annibynnol, mae'r cwricwlwm a gynigir wedi'i seilio ar arfer sefydledig a'r adnoddau sydd ar gael yn hytrach nag anghenion y dysgwyr.

54 Mewn llawer o golegau, nid yw rhaglenni dysgu'n rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau dymunol dysgwyr. Yn benodol, nid yw rhaglenni dysgu ar gyfer dysgwyr sydd â'r lefel uchaf o angen yn ddigon perthnasol i'w hanghenion neu'u cyrchfannau tebygol. I lawer o ddysgwyr, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu annibyniaeth, cyflogadwyedd a medrau bywyd dysgwyr yn ddigon unigoledig. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, nid yw rhaglenni dysgu'n paratoi dysgwyr yn effeithiol ar gyfer yr her y byddant yn ei hwynebu yn eu bywydau yn y dyfodol.

55 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n trefnu darpariaeth briodol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Mae gan fwyafrif y colegau drefniadau i staff sy'n siarad Cymraeg gefnogi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith ac ar yr aelwyd. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyrsiau sy'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig, ac ychydig iawn o ddysgwyr yn unig ledled Cymru sy'n cwblhau eu rhaglenni medrau byw yn annibynnol yn Gymraeg.

## Cymwysterau a thystysgrifau dysgu

**Astudiaeth achos 5: Mae cynllunio cwricwlwm hyblyg yn creu profiadau dysgu pwrpasol ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Penfro**

Yn 2015, yn dilyn adolygiad cymhwyster ar gyfer ei gyrsiau medrau byw yn annibynnol, penderfynodd y coleg leihau nifer y credydau yr oedd angen i ddysgwyr eu cyflawni ar bob cwrs. Mae'r ffocws hwn wedi galluogi athrawon i gynllunio cwricwlwm mwy hyblyg sy'n galluogi dysgu estynedig a chaffael medrau ymarferol.

Mae amserlenni creadigol yn cynnwys opsiynau galwedigaethol perthnasol ac yn galluogi dysgwyr i brofi cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol. Mae opsiynau galwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr yn cynnwys gwaith brics, gwaith saer, gofal anifeiliaid, garddwriaeth, arlwyo, trin gwallt a harddwch, teithio a thwristiaeth, celf a chwaraeon. Caiff y pynciau galwedigaethol hyn eu cyflwyno gan diwtoriaid prif ffrwd, gan ddefnyddio eu harbenigedd a chyfleusterau galwedigaethol arbenigol. Mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn o ran cefnogi'r broses bontio wrth symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch.

Yn ychwanegol, mae'r holl raglenni astudio yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau byw yn ymarferol dysgwyr. Mae'r adran medrau byw yn annibynnol yn cynnwys ardal gegin ag offer addasol, sy'n galluogi pob dysgwr i elwa ar y cwricwlwm arlwyo. Mae peiriant golchi, peiriant golchi llestri, haearnau smwddio a byrddau smwddio yn galluogi'r dysgwyr i ddysgu medrau pwysig ar gyfer creu cartref. Prynwyd peiriannau gwnïo i ddysgwyr ymarfer creu ac atgyweirio dillad ac eitemau cartref. Mae dysgwyr ar rotâu i wneud te a choffi ar gyfer eu sesiwn tiwtorial grŵp.

Mae ystod amrywiol llwybrau dilyniant dysgwyr yn adlewyrchu ehangder y cwricwlwm a gynigir yn y coleg. Yn 2015-2016, aeth bron pob un o'r dysgwyr yn eu blaenau i ddilyn hyfforddeiaethau mewn ystod amrywiol o feysydd galwedigaethol yn y coleg. Mae profiad dysgwyr o feysydd galwedigaethol yn helpu i adeiladu eu medrau ac yn llywio penderfyniadau am lwybrau gyrfa yn y dyfodol sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd.

56 Yn y rhan fwyaf o golegau AB, caiff dysgwyr gyfleoedd addas i ddilyn ystod o gymwysterau, tystysgrifau ac unedau credyd sy'n berthnasol i'w cwrs. Yn amlach na pheidio, mae colegau'n sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cymwysterau ar lefel sy'n gweddu'n dda i'w galluoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn sicrhau bod cymwysterau'n cydnabod cyflawniadau dysgwyr yn briodol yn eu rhaglenni astudio ac yn hyrwyddo dilyniant o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol neu i raglenni prif ffrwd yn y coleg.

57 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n trefnu darpariaeth addas i ddysgwyr ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol uwch ennill cymwysterau ychwanegol mewn medrau hanfodol. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr hyn ac yn galluogi iddynt fynd yn eu blaenau i ddilyn rhaglenni lefel uwch yn y coleg.

58 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill y cymwysterau neu'r unedau credyd perthnasol y cânt eu cofrestru ar eu cyfer. Mae rhai dysgwyr nad ydynt yn ennill cymwysterau llawn yn cyflawni unedau credyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain yn ddysgwyr nad ydynt wedi gallu cwblhau eu prif gymhwyster oherwydd problemau iechyd neu broblemau personol.

59 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymwysterau y maent yn eu hennill gan eu bod yn cefnogi eu dilyniant o fewn y coleg AB. Mewn rhai achosion, mae'r unedau sy'n cael eu cwmpasu o fewn cymwysterau yn mynd i'r afael â thestunau sy'n berthnasol i fywydau dysgwyr yn y dyfodol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw'r unedau hyn yn mynd i'r afael ag anghenion a galluoedd dysgwyr, nac yn adlewyrchu cyrchfannau tebygol dysgwyr yn ddigon da. Yn aml, mae gweithgareddau wedi'u seilio'n ormodol ar daflenni gwaith ac nid ydynt yn datblygu nac yn achredu medrau ymarferol a fydd o ddefnydd i ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol.

60 Mewn rhai achosion, nid yw nifer yr unedau y mae colegau'n eu cynnwys o fewn cymwysterau yn galluogi dysgwyr i atgyfnerthu eu dysgu trwy ailadrodd neu gymhwyso medrau mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r pwyslais ar gymwysterau fel ffordd o fesur cynnydd yn hynod ddi-fudd i ddysgwyr sydd â lefelau uwch o angen nad ydynt yn meddu ar y medrau llythrennedd neu rifedd i fynd ymlaen i ddilyn rhaglenni dysgu prif ffrwd.

61 At ei gilydd, rhoddir gormod o bwyslais ar gymwysterau i fesur cyflawniad neu gynnydd pan nad yw hyn yn berthnasol i anghenion a galluoedd dysgwyr, na'u cyrchfannau yn y dyfodol. Mae'r colegau hyn yn mabwysiadu dull mwy hyblyg ar gyfer cymwysterau fel eu bod yn gweddu'n well i anghenion a dyheadau unigol dysgwyr ac yn sicrhau bod cymwysterau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu.

## Medrau llythrennedd a rhifedd

62 Mae gan bron bob coleg AB ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o raglenni dysgu medrau byw yn annibynnol yn rhoi pwyslais cryf ar lythrennedd a rhifedd mewn cynlluniau gwaith a chynllunio gwersi. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn cefnogi llwybrau dilyniant yn y coleg.

63 Caiff llawer o ddysgwyr ar gyrsiau mynediad lefel 3 gyfleoedd priodol i ddilyn cymwysterau perthnasol mewn llythrennedd a rhifedd yn ychwanegol i'w prif gymhwyster. Mae rhai dysgwyr ar y lefel hon yn mynychu dosbarthiadau ailsefyll cyrsiau TGAU prif ffrwd gyda chymorth gan staff medrau byw yn annibynnol. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi gallu dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i ddilyn cyrsiau prif ffrwd.

64 I lawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad 1 neu 2, mae unedau perthnasol o fewn y prif gymhwyster yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae unedau o'r fath yn cynnwys testunau pwysig fel trin arian, defnyddio cludiant cyhoeddus a darllen ryseitiau. Mae gweithgareddau ymarferol fel coginio a garddwriaeth yn darparu llawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun y gweithgaredd. Fodd bynnag, mae gormod o weithgareddau ar y lefel hon wedi'u seilio ar daflenni gwaith ac nid ydynt yn galluogi dysgwyr i atgyfnerthu eu medrau trwy ailadrodd a chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau.

65 Mae llawer o golegau'n gwneud defnydd da o weithgareddau menter a gwaith prosiect i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Yng Ngholeg Gŵyr, er enghraifft, mae dysgwyr cyn-mynediad a lefel mynediad 1 yn datblygu'r medrau hyn mewn cyd-destun ymarferol trwy gymryd rhan mewn prosiect sy'n cyflenwi llysiau i staff. Mae'r dysgwyr hyn yn ymweld â chyflenwyr, yn dewis cynnyrch ac yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm i wneud bagiau llysiau ar gyfer staff. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw ffocws gweithgareddau o'r fath wedi'i gysylltu'n ddigon da â mannau cychwyn unigol neu dargedau personol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw colegau'n olrhain y cynnydd a wna dysgwyr yn ddigon da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy'r gweithgareddau pwysig hyn.

66 Mae bron pob coleg yn defnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd i gadarnhau bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar gyrsiau ar lefel briodol. I lawer o ddysgwyr ar gyrsiau lefel mynediad 3, mae'r asesiadau hyn yn helpu nodi meysydd perthnasol datblygu medrau. Fodd bynnag, nid yw asesiadau gwaelodlin yn cofnodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer llawer o ddysgwyr llai abl yn ddigon da. Nid yw llawer o golegau'n ailasesu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd yn erbyn eu mannau cychwyn. O ganlyniad, ni all llawer o golegau arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ystod eu cyfnod yn y coleg.

67 Mae llawer o golegau'n dibynnu ar gael dysgwyr i ennill cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd i ddangos y cynnydd y maent wedi'i wneud yn y medrau hyn. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o golegau systemau cadarn ar waith i olrhain cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd lle caiff hyn ei addysgu mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Mewn llawer o achosion, nid yw targedau ar gyfer

llythrennedd a rhifedd mewn CDUau yn ddigon penodol. O ganlyniad, ni all y rhan fwyaf o golegau olrhain y camau bach o gynnydd a wna dysgwyr wrth ddatblygu'r medrau hyn. Mae hyn yn arbennig o wir am ddysgwyr nad ydynt yn debygol o fynd yn eu blaenau i addysg bellach prif ffrwd.

68 Prin yw'r colegau sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau cyfathrebu dysgwyr, hyd yn oed pan nodwyd bod hyn yn anhawster dysgu penodol. Mae llawer o dargedau ar gyfer cyfathrebu yn rhy fras ac nid ydynt yn mynd i'r afael â natur yr anhawster dysgu. Mewn llawer o achosion, mae targedau ar gyfer llythrennedd yn canolbwyntio'n arbennig ar ddarllen ac ysgrifennu. I lawer o ddysgwyr llai abl, mae hyn yn arwain at weithgareddau lefel isel ailadroddus sydd o werth amheus.

69 Nid oes gan golegau AB ddigon o arbenigedd mewnol i asesu anghenion cyfathrebu dysgwyr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei chael yn anodd elwa ar wasanaethau arbenigol yn hyn o beth. Nid yw'r rhan fwyaf o staff yn meddu ar yr arbenigedd priodol i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynorthwyo'n briodol trwy bob ffordd i ddatblygu eu medrau cyfathrebu tra byddant yn y coleg. O ganlyniad, nid yw'r defnydd o strategaethau cyfathrebu i fynd i'r afael ag anghenion cyfathrebu unigol dysgwyr mewn colegau wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

### Medrau bywyd ac annibyniaeth

70 Nid yw llawer o golegau AB yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau bywyd ac annibyniaeth dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n casglu gwybodaeth ddefnyddiol am fedrau dysgwyr a blaenoriaethau i'w datblygu yn y maes hwn cyn iddynt ymuno â'r coleg. Yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar raglenni ar lefel briodol. Fodd bynnag, nid yw llawer o golegau'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i gynllunio ar gyfer datblygu medrau dysgwyr yn unol â'u cyrchfannau tymor hir.

71 Yn Nhŷ Weston, mae dysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd cynyddol a ddarperir gan y cwricwlwm 24 awr. Mae dysgwyr yn gosod targedau iddyn nhw eu hunain ar gyfer meysydd allweddol medrau cymdeithasol ac annibyniaeth, sydd wedyn yn cael eu rhannu â staff sy'n gweithio gyda'r dysgwyr yn y lleoliad addysg. Caiff targedau eu hadolygu bob mis ac maent yn cyfrannu at asesiadau cyffredinol o gynnydd dysgwyr.

72 Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau medrau byw yn annibynnol yn cynnwys unedau sy'n datblygu medrau mewn meysydd perthnasol fel coginio, rheoli cyllidebau neu deithio'n annibynnol. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ymarferol. Fodd bynnag, hyd yn oed pan gyfeirir yn benodol at annibyniaeth yn nheitl y cymhwyster neu'r uned, nid yw llawer o weithgareddau'n rhoi cyfleoedd digonol i ddysgwyr gaffael medrau ymarferol neu gymhwyso'r rhain mewn cyd-destunau realistig.

73 Mewn tua hanner y colegau, mae nifer yr unedau sy'n cael eu cynnwys o fewn y cymhwyster yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr atgyfnerthu eu dysgu. Yn rhy aml, caiff addysgu medrau ar gyfer annibyniaeth ei yrru gan ofynion y cymhwyster ac nid yw'n rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer ac atgyfnerthu'r medrau hyn. Yn yr achosion hyn, mae llawer o weithgareddau ystafell ddosbarth yn cynnwys llenwi taflenni gwaith a chwblhau tasgau gwrando ac ysgrifennu ar lefel isel.

74 Mae’r rhan fwyaf o golegau’n sicrhau bod rhaglenni dysgu’n cynnwys gweithgareddau addas sy’n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Yng Ngholeg Gwent, mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o brosiectau gwirfoddoli ac elusennol sy’n hyrwyddo ymgysylltiad dysgwyr yn y gymuned. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw colegau’n olrhain cyflawniadau dysgwyr yn y maes hwn yn ddigon da nac yn elwa’n ddigonol ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil gweithgareddau o’r fath i atgyfnerthu medrau a dealltwriaeth allweddol.

75 Mae rhai colegau wedi ymateb yn dda i ddiffygion a nodwyd mewn adroddiadau arolygu meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol, ac maent wedi dechrau pwysleisio bod addysgu medrau perthnasol ar gyfer annibyniaeth yn rhan annatod o’u rhaglenni dysgu medrau byw yn annibynnol. Yng Ngrŵp Llandrillo Menai, er enghraifft, mae asesiadau cychwynnol yn canolbwyntio ar fedrau ar gyfer byw yn annibynnol, yn ogystal â chyflogaeth, cynhwysiant cymunedol ac iechyd a lles. Gosodir targedau i ddysgwyr ar draws pob un o’r meysydd hyn i sicrhau eu bod yn datblygu’r medrau hyn ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae rhai colegau wedi lleihau nifer yr unedau sydd wedi’u cynnwys o fewn cymwysterau i sicrhau bod y rhain yn berthnasol ac yn caniatàu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ar gyfer ailadrodd ac atgyfnerthu dysgu.

76 Nid oes gan y rhan fwyaf o golegau fecanweithiau cadarn ar waith i arfarnu’r cynnydd a wna dysgwyr o ran datblygu eu medrau bywyd ac annibyniaeth dros gyfnod. Er bod tystiolaeth anecdotaidd glir o ddysgwyr unigol yn gwneud cynnydd da yn datblygu’r medrau hyn, ni all y rhan fwyaf o golegau arfarnu ansawdd ac effaith y meysydd pwysig hwn o’u gwaith yn ddibynadwy.

### Profiad gwaith

77 Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu profiad gwaith ac addysg sy’n gysylltiedig â gwaith dysgwyr yn amrywio’n sylweddol ar draws colegau AB.

78 Mae gan y rhan fwyaf o golegau drefniadau addas ar waith i sicrhau bod dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol lefel mynediad 3 neu lefel 1 yn cymryd rhan mewn profiad gwaith perthnasol pan fydd hyn yn ofyniad gan y cwrs. Mewn llawer o achosion, mae lleoliadau gwaith yn cysylltu’n agos â’r maes galwedigaethol y mae dysgwyr yn bwriadu ei fynychu yn y dyfodol. Mae hyn yn effeithiol iawn wrth gefnogi eu dilyniant i gyrsiau lefel uwch yn y coleg.

79 Mae tua hanner y colegau’n cynllunio’n effeithiol iawn i roi cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn profiad gwaith neu addysg sy’n gysylltiedig â gwaith sydd wedi’i deilwra’n dda i’w galluoedd. Mae’r colegau hyn wedi datblygu cysylltiadau cryf gydag ystod o gyflogwyr yn eu cymuned leol. Yn yr achosion hyn, mae’r maes dysgu’n elwa ar fewnbwn cynghorwyr Gyrfa Cymru a threfniadau yn y coleg i gynorthwyo staff medrau byw yn annibynnol i ddod o hyd i leoliadau ar gyfer ystod lawn y dysgwyr. Mewn llawer o’r colegau hyn, mae staff yn cynnwys targedau perthnasol ar gyfer profiad gwaith yn CDUau dysgwyr, ac yn arfarnu effaith profiad gwaith yn dda yng nghyd-destun cynnydd cyffredinol y dysgwyr.

80 Yn yr un colegau hyn, mae staff wedi trefnu darpariaeth amgen briodol ar gyfer dysgwyr na allant elwa ar brofiad gwaith allanol i ddatblygu profiad gwaith yn y coleg. Maent yn elwa ar y cyfleoedd a ddarperir gan y coleg ehangach ar gyfer lleoliadau

gwaith mewnol yn dda iawn. Mae lleiafrif o golegau wedi datblygu cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr brofi gwaith tîm a gweithio tuag at eu nodau trwy raglenni gwirfoddol rheolaidd a chynlluniedig yn y gymuned.

81 Mewn tua hanner y colegau, fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith i ddysgwyr nad ydynt ar gyrsiau galwedigaethol yn gyfyngedig, yn enwedig ar gyfer dysgwyr is eu gallu. Yn y colegau hyn, prin yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cyflogadwyedd trwy leoliadau mewnol neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y coleg. Nid yw staff yn arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer profiad gwaith heblaw trwy ennill prif gymwysterau. At ei gilydd, nid oes gan y colegau hyn resymwaith clir ar gyfer datblygu medrau sy'n gysylltiedig â gwaith dysgwyr pan nad yw hyn yn ofyniad gan y cymhwyster.

82 Mae bron pob coleg yn cynnwys unedau ym mhrif gymwysterau dysgwyr sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys testunau fel gwneud cais am swydd, iechyd a diogelwch yn y gwaith a gweithio gyda phobl eraill. Fodd bynnag, yn aml, mae'r gwaith sydd ei angen i gwblhau'r uned yn ddamcaniaethol ac wedi'i seilio ar daflenni gwaith, ac nid yw'n datblygu medrau ymarferol dysgwyr yn ddigon da. Mewn llawer o achosion, nid yw cynnwys y gwaith yn cysylltu'n ddigonol â dyheadau neu gyrchfannau tebygol dysgwyr unigol.

**Astudiaeth achos 6: Mae gwaith partneriaeth effeithiol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn darparu cyfleoedd ar gyfer interniaethau a gefnogir ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol.**

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi adolygu ei ddarpariaeth medrau byw yn annibynnol yn systematig i wella llwybrau dilyniant a deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dilyn ei arolygiad gan Estyn ym Mawrth 2015. O ganlyniad, mae pob dysgwr yn dilyn un o'r pedwar llwybr dilyniant erbyn hyn, sy'n adeiladu ar fedrau cymdeithasol ac annibyniaeth dysgwyr, ac yn adlewyrchu eu nodau tymor hir yn agosach.

Un o nodau allweddol adolygiad y coleg oedd gwella'r cyfraddau dilyniant i waith ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol a gwella ansawdd y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr yn y lleoliad gwaith. I'r perwyl hwn, datblygodd y coleg raglen o interniaethau a gefnogir ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, asiantaeth cyflogaeth a gefnogir Elite ac Anabledd Dysgu Cymru. Cefnogir y bartneriaeth gan gyllid Engage to Change ac mae'n dilyn y model a sefydlwyd gan Project Search yn yr Unol Daleithiau.

Lansiwyd y cynllun ym Medi 2016, a disgwylir y bydd 11 o ddysgwyr yn cwblhau tri lleoliad 10 wythnos mewn gwahanol adrannau yn y brifysgol yn ystod y flwyddyn. Mae ystod yr interniaethau'n cynnwys cynorthwyydd gweinyddu, technegydd labordy cemeg, a chynorthwyydd siop goffi. Mae hyfforddwr a hyfforddwr swyddi a ddarperir gan y coleg ac asiantaeth cyflogaeth a gefnogir ELITE yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y dysgwyr yn y gweithle.

Mae'r interniaid yn cyrraedd am 9.00 a.m. bob dydd ac yn cymryd rhan mewn awr o ddysgu galwedigaethol, y maent wedyn yn ei gymhwyso i'r

amgylchedd gwaith gwirioneddol. Ar ddiwedd y diwrnod, mae'r interniaid yn adolygu eu diwrnod ac yn cwblhau cofnod dyddiol i gofnodi eu dysgu allweddol. Ar yr un pryd y maent yn cwblhau eu hinterniaeth, mae'r interniaid yn gweithio tuag at gymhwyster galwedigaethol mewn medrau cyflogadwyedd.

Mae'r dull trochi o ddysgu a ddarperir gan y model hwn yn arwain at fanteision niferus i ddysgwyr. Mae'r interniaid yn caffael medrau galwedigaethol yn uniongyrchol ac mewn cyd-destunau bywyd a gwaith go iawn, ac maent yn atgyfnerthu eu dysgu trwy fyfyrio a thrafod wrth iddynt gwblhau eu cymwysterau. Mae'r hyfforddwr a'r hyfforddwr swyddi yn cynorthwyo'r dysgwr yn ei rôl swydd ac wrth iddo gwblhau ei gymhwyster.

Nod y prosiect yw cynyddu dilyniant dysgwyr i gyflogaeth â thâl ar ddiwedd y rhaglen. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y prosiect, nid oes unrhyw ddata yn ymwneud â dysgwyr Coleg Caerdydd a'r Fro. Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar yn dangos bod dysgwyr wedi cael cyfnod pontio llwyddiannus iawn i'r rhaglen o ganlyniad i'r dull gwahanol o ddysgu.

**Astudiaeth achos 7: Sut mae profiad gwaith yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Penfro**

Yn 2015-2016, bu'r holl ddysgwyr medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Penfro yn cymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith byr dros gyfnod o un neu bedair wythnos. Yn dilyn y llwyddiant hwn, roedd staff yn awyddus i archwilio'r modd y byddai ymestyn hyd y cyfnod mewn lleoliadau yn cefnogi cynnydd a datblygiad dysgwyr.

Mae'r holl gyrsiau medrau byw yn annibynnol bellach yn cynnwys lleoliadau gwaith allanol a gynhelir am hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan trwy gydol y flwyddyn. Mae gan y coleg ddull sydd wedi'i strwythuro'n ofalus ar gyfer cynllunio lleoliadau dysgwyr. Yn ystod tymor yr hydref, mae lleoliadau gwaith yn digwydd ar sail grŵp cyfan i fagu hyder a rheoli'r newid i wahanol leoliadau gwaith. Yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf, caiff dysgwyr ddewis o leoliadau gwaith fel y gellir eu gweddu i'w llwybrau gyrfa unigol.

Mae'r coleg yn gweithio gydag ystod o gyflogwyr lleol i ddarparu rhaglen profiad gwaith amrywiol. Mae'r coleg yn cynnig dewis o leoliadau gwaith yn yr awyr agored a dan do, gan gynnwys mynd â chŵn am dro, rheoli coetiroedd, gwneud cabinetau a gweithio mewn warws. Yn ychwanegol, mae'r coleg yn parhau i elwa ar gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith mewnol, ac mae dysgwyr yn mynd ar leoliadau yn adran TGCh ac ystadau a siop lyfrau'r coleg.

Mae'r rhaglen profiad gwaith wedi arwain at gynnydd yn hyder personol dysgwyr a'u gallu i ganolbwyntio a dilyn cyfarwyddiadau. Mae dysgwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o'r byd gwaith. Mae lleoliadau gwaith wedi codi disgwyliadau dysgwyr am eu hopsiynau dilyniant yn y dyfodol wrth iddynt elwa ar ddisgwyliadau a chyfrifoldebau sy'n briodol i oedran mewn lleoliadau gwaith realistig.

83 Mae gan bron bob coleg drefniadau cadarn ar waith i gynnal asesiadau risg ar gyfer lleoliadau profiad gwaith. Pan fydd rhaglenni profiad gwaith llwyddiannus ar waith, mae asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth sy'n benodol i'r unigolyn ac yn adlewyrchu eu galluoedd a'u hanghenion yn gywir. Mae staff colegau'n darparu lefelau priodol o gymorth ar gyfer dysgwyr unigol ac yn ymweld â darparwyr yn rheolaidd i wirio'r cynnydd y maent yn ei wneud.

### Cyfnod pontio allan o'r coleg

84 Mae'r rhan fwyaf o golegau AB yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad rheolaidd am eu dyfodol. Yn y rhan fwyaf o golegau, caiff cyngor ar yrfaoedd ei integreiddio'n dda yn y rhaglen diwtorial a'i gynnwys mewn unedau penodol o fewn y prif gymhwyster. Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn mynychu'n rheolaidd i ddarparu cyngor ar gyfer dysgwyr yn unigol neu gyfarfod â grwpiau o ddysgwyr. Mae tua hanner y colegau'n trefnu digwyddiadau pontio gwerthfawr, y mae nifer dda o ddarparwyr a rhieni a gofalwyr yn eu mynychu. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, cynhelir y digwyddiadau hyn yn rhy agos at ddiwedd y cwrs, ac nid yw dysgwyr a'u teuluoedd mewn sefyllfa dda i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth hon.

85 At ei gilydd, mae'r cyngor y bydd colegau AB yn ei ddarparu yn fwyaf perthnasol ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n gallu mynd yn eu blaenau i ddilyn rhaglenni prif ffrwd ar lefel 1 neu i hyfforddeiaethau yn y coleg. I ddysgwyr nad ydynt yn dymuno neu nad ydynt yn gallu mynd yn eu blaenau i ddilyn cyrsiau lefel uwch, caiff dewisiadau eu cyfyngu gan yr hyn sydd ar gael yn lleol o ran opsiynau cyflogaeth, gwaith gwirfoddol neu ddarpariaeth gwasanaeth dydd.

**Astudiaeth achos 8: Sut mae gwaith partneriaeth gyda Gyrfa Cymru yn cefnogi dysgwyr medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Ceredigion**

Yn 2014, bu Coleg Ceredigion yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu model dilyniant chwe cham ar gyfer pob dysgwr sy'n mynd i'r coleg. Mae'r model yn dechrau ym Mlwyddyn 9 yr ysgol ac yn parhau trwy gydol cyfnod y dysgwyr yn y coleg. Y nod yw sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfnod pontio didrafferth i'r coleg, a'u bod yn cael eu cynorthwyo trwy gydol eu cyfnod yn y coleg nes byddant yn eu cyfnod pontio allan o'r coleg neu hyd nes y byddant yn 25 oed.

Mae gwaith y coleg gyda chynghorwr arbenigol Gyrfa Cymru yn greiddiol i lwyddiant y broses hon. Mae ei hymglymiad â'r dysgwr yn dechrau ym Mlwyddyn 9 wrth iddi fynychu cyfarfod cynllunio pontio ysgolion ar gyfer dysgwyr sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gytundeb adnodd gweithredu gan yr ysgol a mwy (SAPRA) a'r holl adolygiadau blynyddol tra bydd y dysgwr yn aros yn yr ysgol. Caiff dysgwyr gyfnod ymsefydlu graddol yn y coleg, a phan benderfynir bod y dysgwr yn dymuno mynychu'r coleg, bydd y coleg yn cynnal cyfarfod cynllunio gyda'r dysgwr, y rhieni a'r gofalwyr a'r holl asiantaethau perthnasol.

Mae cynghorwr Gyrfa Cymru yn cadw cysylltiad agos â'r holl ddysgwyr yn ystod eu cyfnod yn y coleg, gan fynychu cyfarfodydd rheolaidd i adolygu

dyheadau dysgwyr a sicrhau bod lleoliadau gwaith sy'n gweddu i'w diddordebau penodol yn cael eu dewis. Yn ystod yr adolygiadau hyn, trafodir cynnydd dysgwyr a'u cyrchfannau yn y dyfodol. Caiff dysgwyr sy'n dymuno dechrau cyflogaeth eu cyfeirio at asiantaethau cymorth arbenigol, fel Ymddiriedolaeth Shaw, ac fe gânt gyngor gan gynghorwyr dysgu anabledd yn y ganolfan waith. Mae dysgwyr sy'n dymuno mynd yn eu blaenau i addysg bellach yn cael cyfweliad cymorth gyda chynghorwr dysgu'r coleg. Mae cynghorwr Gyrfa Cymru yn parhau i weithio gyda phob dysgwr sy'n parhau mewn addysg neu'n chwilio am gyflogaeth nes byddant yn 25 oed.

Mae'r berthynas weithio agos gyda Gyrfa Cymru a rhanddeiliaid eraill yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr wedi cytuno ar gyrchfannau cyn iddynt adael y coleg. Mae hyn yn helpu sicrhau cyfradd cadw, cyrhaeddiad a chwblhau'n llwyddiannus o 100%. Mae'r holl ddysgwyr naill ai'n mynd yn eu blaenau i ddilyn cyrsiau pellach (amser llawn neu ran-amser), cyflogaeth a gefnogir neu heb gefnogaeth, neu waith gwirfoddol yn y gymuned.

Mae'r coleg yn parhau i ffurfio partneriaethau newydd i sicrhau bod y cyfraddau dilyniant llwyddiannus hyn yn gallu parhau ac mae wedi dechrau cymryd rhan ym mhrosiect Engage for Change Gyrfa Cymru yn ddiweddar.

86 Mae bron pob coleg yn gweld bod rôl Gyrfa Cymru yn arwyddocaol iawn o ran rhoi cymorth ac arweiniad i ddysgwyr o ran cyfnod pontio allan o'r coleg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwerthfawrogi'r gwaith partneriaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru, cyflogwyr, sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau cymdeithasol gan nad yw llawer o golegau'n meddu ar wybodaeth fanwl am lwybrau dilyniant eraill.

87 Fodd bynnag, mae'r cymorth a gaiff dysgwyr unigol wrth gynllunio eu cyfnod pontio o'r coleg yn amrywio'n sylweddol yn ôl o'un a oes ganddynt CDS ar waith ai peidio, ystod ac ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol, a'r llwybrau dilyniant sydd ar gael yn y coleg.

88 Ni all y rhan fwyaf o golegau arfarnu faint o ddysgwyr sy'n cyflawni eu dewis cyrchfan pan fyddant yn gadael y coleg. At ei gilydd, nid yw llawer o golegau'n rhoi digon o bwyslais ar gyrchfannau tebygol dysgwyr. Nid oes digon o golegau'n nodi cyrchfannau penodol ar gyfer dysgwyr ar ddechrau eu cwrs. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, mae cyfnod pontio dysgwyr allan o'r coleg yn debygol o gael ei bennu gan yr hyn sydd ar gael yn lleol, yn hytrach nag o ganlyniad i gynllunio cydlynus tuag at gyfres glir o nodau.

### Cyrchfannau

89 Mae pob coleg AB yn cyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am gyrchfannau dysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol amser llawn trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC). Mae CDGOC yn casglu gwybodaeth am gyrchfannau dysgwyr ar ôl iddynt adael y rhaglen ddysgu neu pan fydd y dysgwr yn gadael cyn cwblhau, yn ôl y categorïau canlynol:


- Rhaglen ddysgu bresennol barhaus
- Chwilio am waith/di-waith

- Gwaith gwirfoddol
- Hunangyflogedig (gan gynnwys sefydlu ei fusnes ei hun)
- Aeth ymlaen i ddysgu gyda nod dysgu lefel uwch (heblaw addysg uwch) yn yr un darparwr neu mewn darparwr arall
- Addysg bellach ar yr un lefel neu lefel is, yn yr un darparwr neu mewn darparwr arall
- Aeth ymlaen i addysg uwch (Lefel 4 neu gyfwerth, neu’n uwch, y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau), yn yr un darparwr neu mewn darparwr arall
- Arall (gweler nodiadau)
- Cyflogedig (amser llawn)
- Cyflogedig (rhan-amser neu dymor byr)
- Ddim yn berthnasol (dysgwr rhan-amser)
- Ddim yn hysbys

90 Mewn llawer o achosion, nid yw’r categorïau hyn yn adlewyrchu ystod lawn y cyrchfannau posibl ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu yn ddigon da, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth. O ganlyniad, mae colegau’n amrywio o ran ystod ac ansawdd y data y maent yn ei gasglu ar gyrchfannau dysgwyr wedi iddynt gwblhau eu rhaglenni dysgu. Ychydig ohonynt yn unig sydd wedi datblygu eu data eu hunain yn ogystal â’’r wybodaeth y maent yn ei darparu i Lywodraeth Cymru i gofnodi’r cyrchfannau ar gyfer dysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol. Ychydig ohonynt yn unig sy’n defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon da i arfarnu eu darpariaeth.

91 O’r data a gyflenwyd i Estyn gan golegau yn ystod yr adolygiad hwn (gweler Ffigur 1), aeth tua hanner y dysgwyr a oedd yn cwblhau eu cyrsiau medrau byw yn annibynnol yn 2015-2016 ymlaen i ddilyn cyrsiau o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol ar yr un lefel neu ar lefel uwch. I lawer o ddysgwyr, roedd hwn yn gwrs ar yr un lefel yn hytrach nag ar lefel uwch. Fodd bynnag, gallai hyn gynrychioli cynnydd o hyd, yn dibynnu ar anghenion a galluoedd y dysgwyr a nodau’r cwrs, gan ei fod yn cynnig cyfle i ddysgwyr atgyfnerthu medrau a gwybodaeth.

**Ffigur 1: Cyrchfannau gadael dysgwyr sy'n astudio medrau byw yn annibynnol o golegau addysg bellach yng Nghymru, 2015-2016**




Ffynhonnell: Data anghyhoeddedig, nas gwiriwyd a ddarparwyd gan bob coleg AB

92 Ar draws yr holl golegau AB, aeth rhai dysgwyr o gyrsiau medrau byw yn annibynnol ymlaen i ddilyn cyrsiau lefel uwch o fewn darpariaeth prif ffrwd y coleg. Bron ym mhob achos, aeth dysgwyr ymlaen i ddilyn cyrsiau galwedigaethol ar lefel 1. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o golegau'n olrhain cynnydd y dysgwyr hyn wedi iddynt adael y maes dysgu medrau byw yn annibynnol.

93 O'r dysgwyr hynny a gwblhaodd eu cyrsiau medrau byw yn annibynnol yn 2015-2016, ychydig iawn o ddysgwyr a ddechreuodd gyflogaeth. Mae'r gyfran hon yr un fath â'r gyfran nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant wrth iddynt gwblhau eu cwrs. Ychydig iawn o ddysgwyr a oedd yn defnyddio gwasanaethau gwirfoddol neu ddarpariaeth canolfan ddydd awdurdodau lleol, neu'n mynd yn eu blaenau i ddilyn hyfforddeiaethau gyda darparwyr dysgu yn y gwaith.

94 Mae cyfran y dysgwyr sy'n manteisio ar bartneriaethau, cyflogaeth, gwasanaethau gwirfoddol, darpariaeth cyflogaeth neu wasanaeth dydd, yn amrywio'n sylweddol rhwng colegau AB. Er enghraifft, daeth 17% o ddysgwyr mewn un coleg o hyd i gyflogaeth ar ôl iddynt gwblhau eu rhaglenni medrau byw yn annibynnol. Mae hyn dros ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer ymadawyr o bob coleg. Yn yr un modd, roedd ymadawyr o raglenni medrau byw yn annibynnol mewn tri choleg AB yn cyfrif am bron i 85% o ymadawyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth gwasanaeth dydd lleol wrth iddynt adael y coleg. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiadau mewn

darpariaeth leol ar gyfer oedolion sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu, yn ogystal â'r ffordd y mae colegau wedi ffurfweddu partneriaethau'n lleol i sicrhau llwybrau dilyniant dibynadwy ar gyfer eu dysgwyr.

95 At ei gilydd, mae'r cyfleoedd ar gyfer dilyniant o golegau AB pan fydd dysgwyr wedi cwblhau eu cyrsiau medrau byw yn annibynnol yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol. Mynegodd llawer o golegau eu rhwystredigaeth yn sgil y diffyg darpariaeth leol berthnasol i ddysgwyr wrth iddynt gwblhau eu cyrsiau. Yn benodol, nid oes cyfleoedd cyflogaeth addas, gan gynnwys cyflogaeth a gefnogir, i alluogi dysgwyr i barhau i ddatblygu a chymhwyso medrau y maent wedi'u dysgu yn y coleg.

96 Yn y rhan fwyaf o golegau, nid oedd staff yn gallu arfarnu pa mor dda yr oedd cyrchfannau gwirioneddol ymadawyr yn gweddu i'w dyheadau wrth iddynt ddechrau yn y coleg. Mae hyn yn rhannol am nad oes gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol nodau cyrchfan wedi'u nodi pan fyddant yn dechrau eu cwrs. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, mae'r gyrchfan darged yn parhau i fod yn ganlyniad cymhwyster. Ychydig o golegau yn unig sydd wedi datblygu systemau i osod nodau tymor hir realistig a heriol ar gyfer dysgwyr sy'n cynnwys y medrau ehangach fydd eu hangen arnynt yn eu bywydau yn y dyfodol a sicrhau bod eu darpariaeth yn cefnogi hyn.

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag 11 o'r 12 maes dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau AB yng Nghymru:

- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys Tŷ Weston)
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Gâr
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gŵyr
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Colegau NPTC
- Coleg Penfro

Casglwyd gwybodaeth am y ddarpariaeth medrau byw yn annibynnol yn Y Coleg Merthyr Tudful yn ystod yr arolygiad craidd o'r coleg yn Nhachwedd 2016.

Yn ystod ymweliadau â'r colegau, cyfarfu arolygwyr â phennaeth y maes dysgu, uwch reolwyr, staff a dysgwyr. Buont yn craffu ar ddogfennau a data ac yn archwilio cofnodion cynnydd a dilyniant dysgwyr.

Casglwyd tystiolaeth hefyd trwy graffu ar ddogfennau perthnasol a gwybodaeth o'r arolygiad diweddar o feysydd dysgu medrau byw yn annibynnol colegau AB.

# Atodiad 2:  Darpariaeth medrau byw yn annibynnol yng Nghymru

## Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu cyrsiau o lefel cyn-mynediad i lefel 1 i fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ystod eang o anghenion dysgu.  Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu, anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau.  Yn 2016-2017, cofrestrodd 56 o ddysgwyr rhwng 16 a 23 oed yn y coleg.

Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yw'r unig goleg AB yng Nghymru i gynnig darpariaeth breswyl arbenigol.  Mae Tŷ Weston yn gartref gofal cofrestredig ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu, anableddau corfforol a synhwyraidd ac anhwylder y sbectrwm awtistig.  Mae wedi ei leoli ar safle Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ac mae preswylwyr yn mynychu cyrsiau yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr.  Mae'r cyfle i ddefnyddio gwasanaethau cymorth arbenigol a gynigir gan Dŷ Weston, gan gynnwys cymorth cyfathrebu, ffisiotherapi, adlam a hydrotherapi, yn sicrhau bod dysgwyr sydd ag ystod o gyflyrau cymhleth yn cael eu cynorthwyo i ddilyn y cyrsiau medrau byw yn annibynnol a phrif ffrwd yn y coleg.

Arolygwyd y maes dysgu medrau byw yn annibynnol ym mis Mawrth 2016 fel rhan o'r arolygiad craidd o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr.

## Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae'r adran medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr sydd ag ystod eang o anghenion dysgu.  Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig, anawsterau lleferydd ac iaith a dysgwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.  Mae oedrannau dysgwyr yn amrywio o 16-22.  Daw dysgwyr i'r coleg o ystod o ddarparwyr, gan gynnwys ysgolion arbennig, canolfannau adnodd arbenigol ac ysgolion prif ffrwd.

Caiff dysgwyr eu hasesu yn ystod eu cyfnod pontio i'r coleg ac maent yn astudio mewn un o bedwar prif faes dysgu, sef: medrau gwaith, medrau bywyd, mynediad a medrau galwedigaethol ar gyfer dilyniant yn y coleg.  Caiff dysgwyr eu rhoi ar lwybr priodol yn unol â lefel eu medrau cymdeithasol, medrau annibyniaeth, a'u cymhwysedd mewn cyfathrebu a chymhwyso rhif.  Mae bron pob dysgwr yn gweithio tuag at gymwysterau ar lefelau mynediad 1 i 3.

Arolygwyd y maes dysgu medrau byw yn annibynnol ym Mawrth 2015 fel rhan o'r arolygiad craidd o Goleg Caerdydd a'r Fro.

## Coleg Cambria

Mae'r ddarpariaeth medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Cambria wedi'i lleoli ar ddau safle, yn Llaneurgain ac Iâl.  Yn 2016-2017, cofrestrodd 101 o fyfyrwyr ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol yn y coleg.  Mae campws Llaneurgain yn darparu cyrsiau medrau bywyd a galwedigaethol amser llawn o lefel cyn-mynediad i lefel mynediad 2.  Mae cynnig prif ffrwd y coleg yn dechrau ar lefel mynediad 3, ac felly,

caiff nifer o ddysgwyr ychwanegol sydd ag anawsterau dysgu cymedrol eu cofrestru'n uniongyrchol ar raglenni prif ffrwd y tu allan i'r maes medrau byw yn annibynnol. Mae dysgwyr yn dilyn rhaglenni unigol sy'n anelu at eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial mewn byw yn annibynnol neu gyflogaeth (cyflogedig, gwirfoddol neu gyflogaeth a gefnogir).

Mae gan ddysgwyr amrywiaeth o anghenion dysgu, gan gynnwys anableddau dysgu cymedrol a difrifol ac anhwylder y sbectrwm awtistig. Gall dysgwyr yng Ngholeg Cambria ddilyn ystod eang o feysydd galwedigaethol, yn unol â'u hanghenion a'u dyheadau. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfleuster blodeuwriaeth, gerddi addurnol, gweithdai garddwriaeth, gofal anifeiliaid a chyfleusterau ceffylau.

Mae dysgwyr o bedwar coleg arbenigol a 12 ysgol prif ffrwd yn mynychu'r coleg.

Arolygwyd y maes dysgu medrau byw yn annibynnol yn Nhachwedd 2015 fel rhan o'r arolygiad craidd o Goleg Cambria.

## Coleg Ceredigion

Mae darpariaeth medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Ceredigion wedi'i lleoli ar gampws Aberystwyth. Mae'r coleg yn cyflwyno cwrs mynediad galwedigaethol sy'n arwain at gymwysterau mewn datblygiad personol a chymdeithasol; medrau ar gyfer annibyniaeth a gwaith; astudiaethau galwedigaethol; cyfathrebu, cymhwyso medrau hanfodol rhif a llythrennedd digidol. Nod y coleg yw galluogi dysgwyr i gaffael medrau y maent eu hangen ar gyfer bywyd, ar gyfer dilyniant ar gyrsiau lefel 1 o fewn darpariaeth prif ffrwd y coleg neu i wirfoddoli neu gyflogaeth a gefnogir neu gyflogaeth nas cefnogir.

Yn 2016-2017, cofrestrodd 13 dysgwr rhwng 18 a 23 oed ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol yn y coleg. Mae'r coleg wedi datblygu perthnasoedd hynod effeithiol gyda staff Gyrfa Cymru sy'n gweithio gyda'r dysgwyr unigol. Mae hyn yn galluogi'r coleg i ragweld a chynllunio'n dda iawn ar gyfer anghenion dysgwyr yn y dyfodol, ac mae'n sicrhau bod ymglymiad agos y coleg â'r dysgwyr, eu rhieni a phobl broffesiynol eraill yn parhau trwy gydol eu taith ddysgu.

## Coleg Gwent

Mae'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Gwent yn darparu cyrsiau ar draws pedwar campws yn Crosskeys, Parth Dysgu Blaenau Gwent, Casnewydd a Phont-y-pŵl. Mae'r coleg yn darparu cyrsiau mewn medrau byw yn annibynnol, annibyniaeth a gwaith, cyflogadwyedd ac astudiaethau galwedigaethol o lefel cyn-mynediad i lefel mynediad 3. Mae pob un o'r cyrsiau'n para blwyddyn ac maent wedi'u cynllunio i hyrwyddo dilyniant yn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol neu ar gyrsiau prif ffrwd yn y coleg.

Nod y maes dysgu yw galluogi dysgwyr i drin eu harian eu hunain, coginio'n annibynnol, cynllunio gyrfa a byw bywyd annibynnol yn y gymuned, yn ogystal â chynyddu hunan-barch a hyder dysgwyr.

Yn 2016-2017, cofrestrodd y coleg 281 o ddysgwyr rhwng 16 a 27 oed ar ei gyrsiau medrau byw yn annibynnol o 40 ysgol wahanol.

### Coleg Sir Gâr

Mae'r ddarpariaeth medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Sir Gâr wedi'i lleoli'n bennaf ar un campws yn Rhydaman ble mae 74 o ddysgwyr rhwng 16 a 23 oed yn astudio amrywiaeth o gyrsiau ar hyn o bryd. Daw dysgwyr o 13 ysgol ledled Sir Gâr ac o wahanol sefydliadau y tu hwnt i'r sir. Roedd gan ryw dri chwarter y dysgwyr medrau byw yn annibynnol Gynlluniau Dysgu a Sgiliau pan ymunon nhw â'r coleg yn 2016-2017.

Mae gan ddysgwyr amrywiaeth eang o anawsterau ac anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, namau corfforol a synhwyraidd, anawsterau dysgu cyffredinol, cymedrol neu ddifrifol, anawsterau lleferydd ac iaith, ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD).

Mae gan y coleg ethos cynhwysol a'i nod yw integreiddio'r dysgwyr ym mywyd y campws cymaint ag y bo modd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r coleg yn gweithio'n galed i ddatblygu medrau cymdeithasol, byw yn annibynnol a chyflogaeth dysgwyr, yn ogystal â'r medrau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i fwynhau hobïau a hamdden.

Mae llawer o'r dysgwyr medrau byw yn annibynnol yn siarad Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, i'r rheiny sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith, neu sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyflwynir rhai gwersi'n ddwyieithog yn Gymraeg. Mae darlithwyr a staff cymorth sy'n siarad Cymraeg yn gallu amrywio rhwng y ddwy iaith, gan sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu cymryd rhan ac ymestyn eu geirfa Gymraeg a'u dealltwriaeth o'r iaith.

### Coleg y Cymoedd

Mae'r maes dysgu sylfaen yng Ngholeg y Cymoedd wedi'i leoli ar draws ei bedwar campws yn Aberdâr, Nantgarw, Rhondda ac Ystrad Mynach.

Mae'r maes dysgu'n cynnig ystod o gyrsiau o lefelau mynediad 1 i 3 mewn cynnydd personol, medrau byw, medrau ar gyfer annibyniaeth ac astudiaethau galwedigaethol. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau ar lefel mynediad 3 mewn ystod eang o feysydd galwedigaethol, gan gynnwys gwallt a harddwch, adeiladu, TGCh a busnes, y celfyddydau creadigol a'r cyfryngau, iechyd a gofal cymdeithasol a lletygarwch ac arlwyo. Nod y ddarpariaeth yw datblygu annibyniaeth, medrau cymdeithasol a dilyniant dysgwyr i addysg bellach neu gyflogaeth.

Yn 2016-2017, cofrestrodd y coleg 344 o ddysgwyr ar ei gyrsiau dysgu sylfaen o 25 o ysgolion. Caiff dysgwyr brofiad o amrywiaeth o anawsterau ac anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu cyffredinol a dyslecsia.

### Coleg Gŵyr

Mae'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Gŵyr wedi'i leoli ar gampws Tycoch. Mae'r coleg yn cynnig 14 o gyrsiau amser llawn ar hyn o bryd sy'n amrywio o lefel cyn-mynediad i lefel mynediad 3 i ddysgwyr sydd ag ystod o anawsterau corfforol ac anawsterau dysgu, gan gynnwys dysgwyr â namau

synhwyraidd, syndrom Down, anawsterau lleferydd ac iaith ac anhwylder y sbectrwm awtistig.  Yn 2016-2017, cofrestrodd y coleg 144 o ddysgwyr o 23 ysgol a darparwyr eraill.

Mae dysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau ar y lefel briodol, gydag unedau'n cael eu dewis yn ofalus i ddarparu ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth allweddol, tra'n cynnwys llythrennedd a rhifedd ar bob cyfle.

Nod pob cwrs yw darparu cyfleoedd ymarferol ar sail profiad, sy'n arwain at ddilyniant i dri llwybr clir, gan gynnwys annibyniaeth a bywyd cymdeithasol, gwaith, neu addysg ar lefel uwch.

### Grŵp Llandrillo Menai

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig ystod o gyrsiau ar draws ei gampysau yn Nolgellau, Glynllifon, Llangefni, Llandrillo-yn-Rhos a'r Rhyl.  Mae'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol yn darparu ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau dysgu ysgafn i gymedrol, anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r coleg yn cynnig ystod o gyrsiau o lefel cyn-mynediad i lefel 3 mewn meysydd gan gynnwys cynnydd personol, medrau bywyd a byw, medrau ar gyfer gwaith a bywyd, cyflogadwyedd a dysgu galwedigaethol.  Mae'r coleg wedi gweddu ei ddarpariaeth i bedwar llwybr arbennig sy'n cynnig llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr ac yn rhoi ystyriaeth dda i gyrchfannau tymor hir tebygol dysgwyr.  Maent yn cynnwys:

- Datblygu annibyniaeth
- Medrau Bywyd a Gwaith
- Sylfaen
- Cyn-alwedigaethol

Mae'r holl ddarpariaeth yn Nolgellau, Glynllifon a Llangefni naill ai'n ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.  Yn 2016-2017, cofrestrodd y ddarpariaeth medrau byw yn annibynnol 156 o ddysgwyr amser llawn sy'n astudio ar draws Grŵp Llandrillo Menai.

### Grŵp Colegau NPTC

Yn NPTC, mae'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol o fewn yr ysgol Dysgu Sylfaen, Dysgu Oedolion a Dysgu Cymunedol.  Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer dysgwyr sydd ag ystod eang o anawsterau ac anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, nam synhwyraidd a chorfforol, anawsterau dysgu ysgafn i ddifrifol ac anhwylderau ymlyniad.  Mae'r coleg hefyd yn gweithio gyda dysgwyr y mae angen iddynt gaffael y medrau cymdeithasol ac emosiynol angenrheidiol i gael eu derbyn yn y gymuned ac ym myd gwaith.  Yn  2016-2017, cofrestrodd y coleg 190 o ddysgwyr rhwng 16 a 23 oed.

Mae'r ysgol yn cyflwyno cyrsiau amser llawn o lefel cyn-mynediad trwodd i 1.  Ei nod yw rhoi'r medrau a'r hyder i ddysgwyr sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywydau, p'un a ydynt yn cael swydd, yn symud tuag at fyw yn annibynnol neu'n mynd yn eu blaenau i astudio ymhellach.  Mae'r cyrsiau'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ynghyd â'r medrau craidd sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.

Mae darpariaeth aml-safle'r coleg yn Afan, Bannau Brycheiniog, Castell-nedd a'r Drenewydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr elwa ar amrywiaeth eang o opsiynau galwedigaethol ar wahanol gampysau.  Mae cyfleusterau'n cynnwys tai bwyta, gerddi, gweithdai cerbydau, theatr a stiwdios technoleg cyfryngau a fferm.

### Coleg Penfro

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Penfro yn cynnig pedwar cwrs o lefel mynediad 1 i lefel 1.  Gall dysgwyr ddilyn ystod eang o opsiynau galwedigaethol, gan gynnwys arlwyo, gofal anifeiliaid, manwerthu a thwristiaeth, TGCh, garddwriaeth, gwaith brics, gwaith saer, chwaraeon a chelf a chrefft.  Mae'r holl gyrsiau'n darparu ffocws ar lythrennedd a rhifedd, tra'n datblygu gwybodaeth dysgwyr am faterion cynaliadwy, dinasyddiaeth, dwyieithrwydd, menter a diwylliant Cymru.  Nod yr holl gyrsiau yw paratoi dysgwyr ar gyfer astudio ymhellach, dilyniant i gyflogaeth a byw yn annibynnol.

Yn 2016-2017, cofrestrodd y coleg 40 o ddysgwyr ar gyrsiau sy'n gweddu i'w cyfnod datblygu a'u hanghenion dysgu unigol.  Mae'r holl raglenni wedi'u hamserlennu dros bedwar diwrnod.  Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr anawsterau dysgu lluosog.  Mae gan ddysgwyr amrywiaeth o anableddau, gan gynnwys ADHD, namau corfforol neu ar y golwg, anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol ac anhwylder y sbectrwm awtistig.

### Y Coleg Merthyr Tudful

Mae'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol yn Y Coleg Merthyr Tudful yn darparu cyrsiau o lefel cyn-mynediad i lefel 1 i fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ystod eang o anawsterau dysgu.  Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr sydd â syndrom Down, anableddau corfforol a synhwyraidd ac anhwylder y sbectrwm awtistig.

Mae dysgwyr yn dilyn cyrsiau mewn cynnydd personol, medrau bywyd a chyflogadwyedd ar lefel sy'n briodol i'w gallu.  Nod y coleg yw hyrwyddo datblygiad medrau cymdeithasol a medrau bywyd trwy'r holl gyrsiau, yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddysgwyr weithio ar eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh.  Mae gan yr adran 56 o ddysgwyr amser llawn ar hyn o bryd.

Arolygwyd y maes dysgu medrau byw yn annibynnol yn Nhachwedd 2016 fel rhan o'r arolygiad craidd o Y Coleg Merthyr Tudful.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ADHD** | Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd |
| **ASA** | Anhwylder y sbectrwm awtistig |
| **CAMHS** | Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed |
| **AB** | Addysg bellach |
| **CDU/RhDU** | Cynllun neu raglen dysgu unigol. Cynllun personoledig yw'r CDU sy'n cofnodi cynnydd yn erbyn nodau a thargedau dysgu clir yn ystod cyfnod y dysgwr yn y coleg. |
| **MBA** | Medrau byw yn annibynnol |
| **Maes dysgu** | Yr adran o fewn y coleg addysg bellach y mae rhaglenni dysgu penodol yn cael eu cynnal ynddi |
| **CDGOC** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| **CDS** | Cynllun Dysgu a Sgiliau |
| **Rhaglen ddysgu** | Ystod lawn y profiadau y caiff dysgwyr eu hariannu ar eu cyfer yn y coleg, gan gynnwys cymwysterau, profiad gwaith a chyfoethogi |
| **SAPRA** | Cytundeb Adnodd Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy |
| **AAA** | Anghenion addysgol arbennig |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| prin = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Estyn (2016) *Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynnydd-chyrchfannau-dysgwyr-mewn-colegau-arbenigol-annibynnol?_ga=2.173863331.183606539.1493728507-1482749420.1490018420. [Defnyddiwyd 01 Medi 2016]

Great Britain (2000) *Learning and Skills Act 2000*. Chapter 21. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/pdfs/ukpga_20000021_en.pdf [Defnyddiwyd 01 Medi 2016].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) *Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10862/pri-ld10862-w.pdf [Defnyddiwyd 3 Chwefror 2017]